





6

L1-50



EMRYS

*(Oddiwrth wawl-arlun yn yr Oriel Gymreig).*

“ Hoff awdwr, seraff ydyw,  
A mawr ei swyn, Emrys yw.”

HWFA 'MON.

GWAITH  
EMRYS.



“ Llaw gadarn barn wnai ffrwyno'i awen rymus  
Fel nad ymgollai yn y pell Ramantus,  
Yn niwlfyd gor-ddychymyg, a'r cysgodau  
Sy'n duo darlunfaoedd rhai awenau ;  
Ymgadwai oddifewn i'r gwir a'r dilys ;  
Lle safai y gwirionedd, safai Emrys.”

ISLWYN.

1916.

AB OWEN, LLANUWCHLLYN.

CYHOEDDIR YN SWYDDFA "CYMRU,"  
CAERNARFON.





## EMRYS.

A W E L f u  
bywyd William  
Ambrose (*Em-  
rys*) ar ei hyd;  
ond llawn o  
waith.

Ganwyd Em-  
rys ym Man-  
gor, Awst 1,  
1813; bu farw  
ym Mhorth-  
madog, Hydref  
31, 1873.

Cafodd addysg gan fam  
dyner a da; yn Ysgol y  
Brodyr Llwydion ym Mangor;  
ac mewn ysgol yng Nghaergybi.  
Ac o'i grud yr oedd mawredd  
Eryri a thynnerwch Môn a  
Menai o'i flaen.

Yn 1828 aeth yn brentis  
dilledydd i Lerpwl, yn 1834  
aeth i Lundain am ddwy flyn-  
edd. Yn y blynyddoedd hyn  
daeth yn fardd ac yn bregethwr. Yn 1836, yn  
lle dychwelyd i Lerpwl, aeth ar daith bregethu  
gyda Chaledfryn i Eifionnydd; ac ymsefydl-  
odd fel gweinidog ym Mhorthmadog. Yn y  
dref fechan, fywiog, brydferth hon y bu hyd ei  
fedd.


Fel pregethwr, bardd, llenor, golygydd,  
eisteddfodwr, a dinesydd enillodd Emrys serch  
a pharch Cymru. Tyner, cain, a phrydferth  
oedd ei awen,—

"Medrai ysgwyd teimlad plentyn  
A'i gydwybod bob yn ail."

Oherwydd tryloewder tlws ei feddwl, a'i  
wybodaeth glir o'r natur ddynol, da gennyf roi  
cyfrol o rai o'i weithiau o flaen yr oes hon.

OWEN M. EDWARDS.






“ Yr alarch hawddgar hwyliai  
A difyr hyd y dwfr ai.”

## CYNHWYSIAD.

	<i>Tud.</i>
AWDL Y GREADIGAETH .. .. .	9
[Cyhoeddwyd gan Evan Jones yn Aberystwyth yn 1849. Anfonwyd hi i Eisteüdfod Aberffraw yn 1849; ni chafodd y gader, ond cafodd edmygedd Eben Fardd.]	
MARWNAD MICHAEL ROBERTS .. .. .	39
[Cyhoeddwyd yn y <i>Drysorfa</i> , yn 1855.]	
“FY MAB” .. .. .	44
[Sef David Rees, mab Gwilym Hiraethog.]	
Y GWEFRHYSBYSAI .. .. .	47
CATHARINE .. .. .	49
[Un o “Adgoffion fy Ngweinidogaeth” yw hanes Catharine. Ymddanghosodd yn y <i>Dysgedydd</i> yn 1858. Dengys mor eang oedd adnabyddiaeth Emrys o'r natur ddynol, ac mor gref oedd ei ffydd yng ngallu gras Duw i godi, i addysgu, ac i goethi, ac i achub.]	

	<i>Tud.</i>
BEDD Y CRISTION .. .. .	60
JOHN .. .. .	60
WILLIAM MARC .. .. .	60
Y MASNACHYDD GONEST .. .. .	61
EDWARD HANDEL STEPHEN .. .. .	62
Y BYWYD-FAD .. .. .	63
Y BLODEUYN OLAF .. .. .	64
[Cyhoeddwyd yn y <i>Dysgedydd</i> , yn 1853.]	
HARRI .. .. .	65
[Darlun symlach, o'r un Adgofion. Ymddangosodd yn yr un flwyddyn. Rhydd gipolwg ar brif waith bywyd Emrys. Ail beth oedd y llenydd, — yr eisteddfod a'r golygu.]	
PA BETH A WNAF? .. .. .	71
DIHANGFA'R A DERYN BACH .. .. .	72
Y CEDYRN.	
i. A gwmpodd y cedyrn? .. .. .	73
ii. Ieuan Gwynedd .. .. .	75
iii. Morgan Howells .. .. .	84
iv. D. Rhys Stephen .. .. .	94
v. Ioan Tegid .. .. .	101
vi. O fedd digyfeillach .. .. .	109
[Marwnad yw hon am y pedwar gŵr grymus gwmpodd yn 1852. Yr oedd dau ohonynt o Feirion, a dau o Forgannwg. Ond perthynent i bedwar enwad gwahanol, — Anibynwyr, Methodistiaid, Bedyddwyr, ac Eglwyswyr. Testun Eisteddfod Aberystwyth oedd. Caledfryn oedd y beirniad, a thraddododd feirniadaeth gofiwyd yn hir. Gwel ei Waith, yn y gyfres hon. Wedi hynny rhoddwyd Caledfryn yntau i huno yn yr un fynwent ag Ieuan Gwynedd, sef yn y Groes Wen.]	





## Y DARLUNIAU.

---

EMRYS	..	..	..	<i>Wyneb-ddarlun.</i>
				(O wawl-arlun gan y diweddar J. Thomas.)
Y PAUN	..	..	..	.. 3
				“Gan ddangos ei dlos wisg dlysog.”
YR ALARCH	..	..	..	.. 5
				“Addolai'i hardd ddelw'i hun, A'i llun mewn dŵr a'i llonnai.”
Y RHAADR	..	..	..	<i>Wyneba tud. 9</i>
				(Darlun gan S. Maurice Jones.)
				“Gan ruo a neidio'n wyllt O'r bryn i'r llyn digllonwyllt; Adsain stwr y dyfnddwr du Barodd ateb o'r ddeutu.”

Y CAWRFIL .. .. .	16
"Gan estyn y dwyn du At ei borthiant i'w barthu."	
Y MARCH .. .. .	24
"A'i gyflym draed grymus—yn cloddio'r llawr; Esgynnai'i erfawr lais cynhyrfus."	
TAWELWCH Y WAWR .. .. .	Wyneba tud. 33
(Darlun gan S. Maurice Jones.)	
NYTH YR EOS .. .. .	38
"Mwynber yn nyfnder y nos—mâl dwsmel Yn llys yr awel oedd llais yr eos."	
BOD AWEN .. .. .	Wyneba tud. 49
Cartref y bardd ym Mhorthmadog. (Darlun gan S. Maurice Jones.)	
CARTREF CYMREIG .. .. .	Wyneba tud. 57
(Darlun gan S. Maurice Jones.) "At y tân eto tynnaf, rhag anwyd."	
CAPEL BACH Y CEUNANT .. .. .	Wyneba tud. 65
(Darlun gan S. Maurice Jones.)	
COED YR HAF.. .. .	Wyneba tud. 73
(Gwawl-arllun gan I. ab O. Edwards).	
BEDD EMRYS.. .. .	Wyneba tud. 97
(Darlun gan S. Maurice Jones.) "Fel hyn, o do i do, Yr awn i'r bedd i gyd."	






Y RHAADR.

“Yr hyflon reieidr hefyd,  
Ruent yn uwch, uwch o hyd.”





# EMRYS.

---

## Y GREADIGAETH.

“Gwnaethost hwynt oll mewn doethineb; llawn yw y  
ddaear o’th gyfoeth.”

CYN creu cylchoedd bydoedd ban,  
ION a eisteddai’i hunan;  
Nid oedd nac angel na dyn,  
Na byd na gwan abwydyn;  
DUW oedd yn un, nid oedd neb  
I weld ei anfeidroldeb,  
Ond uthr ddiddymdra ar daen,  
O flaen ei Ddwyfol wyneb.

Dedwydd breswyliai y DUWDOD—yn holl  
Fwynhad ei fawr hanfod;  
Anibynnol, fythol FOD—ei fawredd  
A’i hyfrydoledd yn fôr diwaelod—

Heb eisiau doniau dynawl  
I fwyn gyhoeddi ei fawl,

Na chyngan un archangel,  
 Na diliau mwyn odlau mêl,  
 Na threiddgraff seraff na sant  
 I gynnal ei ogoniant.

Gorchmynnai, galwai ar goedd  
 I fod aneirif fydoedd.  
 Gair ein IOR esgor a wnaeth  
 Ar degwch CREADIGAETH.  
 Drwy ei rym o'r diddym daeth  
 Ser y né' a'u saerniaeth.

Ac ar ei air neidiai'r nen—i'w chylchoedd  
 A chwarddai bydoedd yn lluoedd llawen.  
 A chwblhawyd hyd at drwch y blewyn,  
 Y pebyll uchel a lle pob llwchyn,  
 Anian gydbwyswyd, rhannwyd pob gronyn,  
 Wrth arfaeth yr Hwn fu'n murio'i therfyn,  
 Goleuadau gloew eu hedyn—welwyd,  
 Trwy rym nodwyd eu tro i'r munudyn.  
 Mawredd o olud! mil myrdd o heuliau,  
 Yn llywio edyn eu holl leuadau,  
 Enaid anian oedd yn llawn o donau,  
 A charolodd y gloewych orielau;  
 Clodfori duw y duwiau—yn ei iaith,  
 Wnai uthr beirianwaith hoew'r wybrennau.

Ymuno'n gôr mewn hoen gainc,  
 I DDUW wnai'r bydoedd ieuainc.

Di rif gomedau ar hynt,  
 Heibio'r ser a brysurynt,  
 Cenhadon gloewon drwy heulog lecedd,  
 Ar wibiadau'n ymweled â'r bydoedd,  
 Gan gyfarch ser fil miloedd—ymwibiant,  
 Teithiant, a chwalant drwy'r holl ucheloedd.

A throant oll wrth y rheol—a roed  
 Gan yr AWDWR dwyfol,  
 Heb lygad d'rawiad ar ol—nac ymlaen,  
 Oll yn adwaen eu llinell hynodol.

Ni welodd neb fanylion  
 Di rif ryfeddodau'r ION;  
 Ni chai'r Aifft er ei chraffder,  
 Tra'n ceisio mesuro'r ser,  
 Hyd i yrfa neu derfyn  
 Erioed i'r bydoedd mawr hyn.

Palestina, Abyssinia,  
 A Chaldea, uchel deuwwch,  
 Syria, Persia, Groeg, Ethiopia,  
 Ac Italia nac ateliwch.

Pa un o'ch meibion pennaf—o raddau  
 Seryddwyr perffeithiaf,  
 A welodd derfyn olaf  
 Ar weithredoedd nerthoedd NAF?

O Frydain glodforedig  
 Atat trof, ynnot y trig  
 Amrywiaeth gwybodaeth bur,  
 Un wyt sy'n darllen natur.

Chwilio i natur oedd gorchwyl Newton,  
 Rosse, a Herschel drwy uchel ymdrechion,  
 Er chwilio i'r uchelion,—addefent  
 Hwyl, mai a welent oedd prin yr ymylon.

Ond awn yn uwch na dynion,  
 I lys yr anfeidrol ION;  
 Pa angel uchel ei âch,  
 Pa ryw gerub rhagorach,

Fu'n olrhain i fanylrwydd  
 Ddiben pob seren a'i swydd?  
 Pa ryw seraff prysuraf  
 O holl ffyddlon weision NAF.

A dd'wed am ryfeddodau—holl anian,  
 A'i llawn amrywiaethau,  
 A hynodion planedau  
 Fil myrdd sydd yn cyflym wau?

Ai rhyddid gwyllt breuddwyd gwan?  
 Ai gwag ddychymyg egwan?  
 Fod yr holl gyrff harddgyrff hyn  
 Yn llawn bob lle o honyn',

O drigolion yn gwau drwy eu gilydd,  
 O amryw luniau mewn mawr lawenydd?  
 Pynciant folawd eu CREAWDYDD—medrus,  
 Yn lluoedd nwyfus oll iddo'n ufydd.

Rhai'n brydyddion, craff lenorion,  
 Athronyddion, doeth rhinweddol;  
 Peroriaethwyr, celfyddydwyd,  
 A rhifyddwyr tra rhyfeddol.  
 Pawb yn ei res, pob un rydd—warogaeth  
 I'r Hwn sy' BENNAETH y deyrnas beunydd.

Trown i lawr, yn awr, yn nes,  
 O'r nen i olrhain hanes  
 Perffaith gywreinwaith yr ION,  
 Yn taenu lle plant dynion;  
 Yn trefnu ein cartref ni  
 Mor odiaeth mewn mawrhydi;

Yn rhoi i'r llawr a'r wawr eu lle,—arwain  
 Y môr i'w orweddle;  
 Ei Ddwyfol air daenai'r de,  
 A'r gogledd ar y gwagle.

Rhyw ddyfnfwll bwll oedd ein byd  
 A noddfa pob anhawddfyd;  
 Difendith dryblith di drefn,  
 A phenrhydd gorff o anhrefn,  
 Yn llawn trwst serthdrwst fal swm  
 Drygionus dreigiau annwn;  
 Neu fyrdd o ddaeargrynfâu  
 A dinistr y gwefrdanau,  
 Ymgau'n dew wnai mwg yn dyrch,  
 Ar amrantau'r mawr entyrch.

Pwy byth a wêd pa beth oedd?  
 Ai nôd o lid ion ydoedd,  
 Ar ryw gelyd drigolion  
 Fu ar y ddaear hardd hon?  
 Dial ion mewn dylanwad,  
 Yn ysu'r holl ddwfn sarhad;  
 Sef ôl rhyw oesau a fu,  
 Filoedd yn gwrthryfelu,  
 I'w phuro'n gorff o ran gwedd  
 Yn gain ym mhob gogonedd.  
 Dyddiau y cread oeddynt,  
 Chwe diwrnod hynod eu hynt.

Y dydd cyntaf NAF a wnaeth,  
 Y llinell o wahaniaeth,  
 Rhwng yr erchyll wyll di wên  
 A llewyrch goleu llawen.  
 Llenni y goleuni glân  
 O'r gwyll a rwygai allan,

Nes y daeth yn nos a dydd  
O law'r anfeidrol LYWYDD.

I'r hyll wyll ai'r elylllon  
Yn haid ar amnaid yr ION;

Ysbrydion duon a ymadawent,  
O flaen y goleu'n filiwn hwy gilient;  
Bronnau hen ddreigiau ymgynddeiriogent,  
I'w bythol ffau'n anobeithiol ffoent,  
Yn arw, â thwrw y bytheirient  
Eu du gableddau—llidiog v bloeddient,  
I ganol gwyll disgynnent—yn ddigllon,  
I ganol doethion a DUW felldithient.

Yr ail ddydd rheolodd ION  
Yr awyr a'i hamrywion;  
Mantolodd, rhodd i bob rhan  
Ei fanwl ddeddf ei hunan:

Y DUW mawr a'i cymysgai'n dymherus,  
O wahanol ansoddau ennynus,  
Yr ulai afreolus—a'r blawrai  
Gydbwysai â'r ufelai'n ofalus.

Rhwng dyfroedd a dyfroedd daeth  
Yn gaer o fawr ragoriaeth.

Cadwai ef ddyfroedd y moroedd mawrion  
Rhag i drachwant eu cynddeiriog drochion  
Ruthro'n llidiog o'u gludiog waelodion,  
Yn boen a dinistr i feibion dynion,  
I wneud drych ein daear hon—fel du fedd;  
Neu ail i annedd lawn o elynion.

Yna daeth y trydydd dydd,  
A ION roes ei leferydd,

“Prysured, torred tiroedd—yn llwyr oll  
Ar wahân o'r dyfroedd;  
Ymadewch ac ewch ar g'oedd  
Yn llawen tua'ch lleoedd.”

Ar hyn clybuwyd gerwin ddryghinoedd,  
A rhwygo'r entrych wnai rhyw gorwyntoedd;  
Yn ddiymaros rhuthrodd v moroedd,  
Tua'r gwaelodion, eu trigle ydoedd,  
A deilliai pistylloedd—chwyrn, tryloewaf,  
Am yr ufyddaf i NAF y nefoedd,  
Oesol fynyddau a sylfein iddynt,  
Dan ryw ysgydwad yn rhes a godynt;  
Ynysoedd at eu gilydd a nesynt,  
Bryniau cribog ardderchog a ddyrchynt;  
Ymhell ac agos yr ymddanghosynt,  
Gwledydd addien o'r cymysglaid ddeddynt,  
A'r dolydd hyfryd elynt—i'w lleoedd,  
Gwaith eu Hawdwr oedd yn goeth goeth drwy-  
ddynt.

Rhedai y gloewon afonydd—mawrion  
Tua'r môr yn ufydd;  
Gwrid y wawr hawddgar derydd—ar eu lli,  
Nes bywiol lonni y drych ysblenydd.

Yr hyfion reieidr hefyd,  
Ruent yn uwch, uwch o hyd;

Mynnent eu ffordd drwy'r meini—cauedig,  
Codent hwy fel gwegi:  
Agenent y clogwyni  
I'r llawr i wneud llwybr i'w lli.



"Y cawrffil uthrwanc erfawr,  
Oedd yno yn llwybro'r llawr."



Eu chwyrn lifeiriant ffyrnig—i'r eithrin  
 A ruthrai'n ferwedig;  
 Chwalai fron, dymchwelai frig,  
 Y graig gadarn grogedig.

Gan ruo a neidio'n wyll  
 O'r bryn i'r llyn digllonwyllt,  
 Adsain stwr y dyfnddwr du  
 Barodd ateb o'r ddeutu.

Ar ol i'r ddaear helaeth,  
 Ei thir oll, ei môr a'i thraeth,  
 I'w rhyfedd ddull a'i ffurf ddod,  
 Ail dd'wedai'r uchel DDUWDOD,

“Cynhyrched, dyged egin  
 Llyisiau er rhoi lles a rhin,  
 Yn dwyn had annewidiol,  
 Mewn trefn heb un maint ar ol;  
 Llyisiau a phreniau'n dwyn ffrwyth,  
 Tyfant er mwyniant a maeth;  
 Oll yn eu lle yn llawn llwyth,  
 Yn elw a chynhaliaeth.”

Ar hyn mewn munudyn ymnewidiai  
 Y ddaearen, hi lawen ymliwiau,  
 Hen lwydaidd wisg mewn eiliad ddiosgai,  
 Mewn gogoniant mwy enwog y gwenai;  
 Hardd wyrddlesni darddai—ar fryn a dôl,  
 Bywyd mawliadol drwy'r byd ymledai.  
 Blodau amryliw eu ffrîw ddeffrowyd,  
 Y rhos a'r lili mor siriol welwyd.  
 A llygad y dydd pob ffrith a frithwyd,  
 A pheraidd feillion ddigon a ddygwyd;  
 Y llon friallu anwyd—ar bob llaw;  
 I aml flaguraw milfil agorwyd.

Chweg aroglau, oedd yn chwarau  
 O rinweddau llysiâu llesol;  
 Dail iachus sawrus siriol—yn filoedd,  
 A lledu yr oedd glaswellt ireiddiol.

Y nardus yn ei irdwf,  
 Y cassia tala'n llawn twf,  
 Arogl myrr drwy y gwlaw mân,  
 A ddeilliai'n beraidd allan.

Codai tewfrig goedwigoedd,—a chuddient  
 Lechweddau'r mynyddoedd;  
 Hardd ddrych ar y ddaear oedd,—a gwelwyd  
 Chwaon yn ysgwyd ei cheinion wisgoedd.  
 Y cedrwydd hardd caeadwrysg,  
 Yn eu maint oedd yn eu mysg,  
 Ar bob tu yn lledu'n llawn,  
 Y caeadlu cysgodlawn.  
 A ban oedd y binwydden,  
 Anturiai'n hyf tua'r nen,  
 Union aeth a'i phen yn nes  
 I'r nen fel tal frenhines:  
 Ffynidwydd gorffenedig,  
 Mwya' byw geid ym mhob gwig;  
 Y dderwen, onnen, a'r yw,  
 Llu mawr o gyll a meryw;  
 Y ffawydd hirbreiff hoewon,  
 Y gwern a'r bocs lliwgar llon;  
 Y palmwydd a'r myrtwydd mân  
 Oll, oll yn eu dull allan;  
 Coed ffrwythlon breision eu brig  
 I gyd mewn ffurf blygedig.  
 Ac yn llawnion, o addfedion  
     Aeron iraidd  
 Y ffigysbren, a'r winwydden  
     A'i grawn noddaudd.

Y mwynbryd almonbren—a'i ddail sawrus,  
A'r fawleddus dirf olewydden.

Mandragorau, promgranadau,  
Eur afalau, uwch rhif welwyd;  
A'r ddaear a ryddhawyd—ar bob rhyw,  
A ION a'i gwneddyw a ogoneddwyd.

Y pedwerydd ddydd a ddaeth,  
Ar y deg GREADIGAETH;  
Y Pen, sef perchen pob hawl,  
Ddywedodd yn dreiddiadawl,—

“ Boed i loewdeg danbaid oleuadau  
Lenwi'r entrych â'u hydrwych belydrau,  
Haul, a lleuad, y ser a'u trefniadau,  
Yn ddynodiad, mesuriad amserau,  
Nos a dydd, misoedd a blynyddau,  
A'r môr helaeth yng ngrym eu rheolau,  
Arwyddion ffyddlon i goffhau—fy nerth,  
I osod mawrwerth barhaus dymhorau.”

Ac wele'r nen yn disglair enynnu,  
A llewyrch eirian tân yn tywynnu,  
Cysgodion llwydion yn llu—a chwalodd,  
Mwyfwy lledaenodd gan ymfelltenu.

Cyn i'r haul roi'i araul wrid,  
Y wylaidd wawr a welid,  
Fel lliwdeg ragredegydd,  
Ar daith yn cyhoeddi'r dydd.

I'r nen daeth brenin y dydd!  
Llawenhai oll o newydd.  
Fel priodfab i'w 'nabod  
Yn hawdd wrth ei wylaidd nôd,

Yn dyfod o'i ystafell  
 Fore mwyn, fry fry ymhell :  
 Neu fel mawr gawr rhagorwych  
 A chalon hoen uwchlaw nych,  
 Gyrcchai at enwog orchwyl  
 Mewn llawn nerth, mewn llawen hwyl.  
 Aeth yn llawen trwy'r entrych,  
 Yn ei danllyd gerbyd gwych;  
 Gwisg o dân, ei gysgod oedd  
 Ar ddwyfron y clir ddyfroedd.

Y byd dros funud a fu  
 Fel un f'ai ar ddiplannu,  
 Gan syndod, wrth ganfod gwedd  
 Lwys yr haul a'i sirioledd;  
 A phob ryw syw lysieuyn  
 Fud syllai, safai yn syn.  
 Ond ar lygad d'rawiad rhwydd  
 Y torrwyd y distawrwydd,  
 Bore awel isel wan  
 Ledaenai deimlad anian,  
 Coed gwyrddion, llon ar bob llaw,  
 A'r dail yn curo'u dwylaw :  
 Dylanwad haul a'i wenau  
 Ym mhob cwm i'w bywiocâu.

Wele'r hwyr! a'r haul a'i rin  
 Yn lliwio y gorllewin;  
 Y nen mewn gwrid enynnawl,  
 A'r môr yn darguddio'r gwawl;  
 Y donn lariaidd dan loew-wrid,  
 Awel leddf heb chwa o lid,  
 Yn hebrwng teyrn y wybren  
 I wely'r lli' islaw'r llen.  
 Y lloer a'i mantell eirian,  
 A'i gemwisg, ddisgleirwisg lân,

Diwres frenhines y nef  
 Arweinïai gôr y wiwnef;  
 A'r ser yn rhesi arian,  
 I gyd yn disgleirio'n gann:  
 Holl len y ffurfafen faith  
 Oedd lawen hardd oleuwaith.

Gwedyn daeth tymp ac adeg  
 Y pumed dydd, twfddydd teg:  
 Duw Ddofydd ddwedodd hefyd,—  
 "Boed dyfroedd aberoedd byd,  
 Y môr a'r holl ffrydiau mân,  
 Yn llawn oll, o hyn allan,  
 O bob pysg yn cymysg wau  
 O fewn dŵr y dyfnderau;  
 Boed eigion llwydion y llaid  
 Yn esgor ar ymlusgiaid;  
 A'r ehediaid ar aden,  
 Chwiwio wnant yn entrych nen;  
 A lliwdeg yn wyllt a gwâr  
 Bo heidiau o bob adar."

Yna'r eigion erfawr a gynhyrfent,  
 Miliynau o rywiau pysg chwareuent,  
 Mwyfwy o heigiau a ymfywiogent,  
 Yn ddiffin nwyfus hwy ddyfal nofient,  
 Rhai hyd wyneb y dŵr a daenent  
 Eu cenn arian, drwy'r aig cyniweirient,  
 Eraill a ymdyrrent—at eu gilydd  
 Yn heigiau llonydd, heb goll hwy unent.

Rhai yn anniben mewn tai cragenog  
 Rhai osodwyd mewn llwyd waddod lleidiog,  
 Rhai o dan hwyliâu ar y donn heulog,  
 Eraill a'u llwybrau mewn mannau gwmonog,

A phob rhyw yn fywiog,—yn arwyddaw  
Amryw allu llaw'r MAWR hollalluog.

Y dwyfol anfeidrol FOD,  
Er ei fawl, wnaeth forfilod;

Rhyw ynysodd byw oeddynt—a'r môr mawr  
Murmurawl a rwygnt;  
Aent fel dwl gwmwl o flaen gwynt—ar ffrwst,  
A rhuadfawr drwst cauai'r dwfr drostynt.

Yna'r adar yn heidiau—ddeorwyd,  
Awyr a lanwyd o amryw luniau;

Rhai dofnon oedd yno'n hel  
Eu dewis fwyd yn dawel,  
Yn eu greddf yn chwalu'r gro,  
Adwaenent eu bwyd yno.  
Y ceiliog glân a'i gân gu,  
A'r ddoef iâr i'w ddfyrru.

Ymloewai'r paen amlwiog—a moesgar  
Yn eu mysg yn serchog,  
Gan ddangos ei dlos wisg dlyso—a'i ben;  
Ysgydwai'i aden mewn rhwysg godidog.

Y droedweog wydd a'r twrci chwyddog,  
A'r golomen lawen symudliwiog,  
Yr hwyaden ferr-droediog—a phob llin  
O'i diofn fyddin yn cydfyw'n foddog.

Rhai ar gopâu creigiau crog  
Yn byw'n y gwynt chwibanog,  
Chwifio'n rhydd uwch ofn yr aig,  
Uwch aelgref uthr uchelgraig;

Neu'n eistedd ar ddannedd hon,  
 Ar nawn yn llu bronwynion,  
 A'u trydar toredig—yn adseiniaw  
 I gellau didaw y graig holltiedig.

Neu'n disgyn ar edyn rhydd  
 Yn awyr y byd newydd,  
 I nofio'r môr fawr a mân  
 Yn hoenus yn eu hanian;  
 Neu suddo i geisio'n gyson  
 Eu pryd a ddarparai ION,  
 Ddosbarthai'r gweddus BORTHWR  
 Ym mwydgell dywell y dŵr.

I'r awyr yr eryr aeth,  
 Gwelai ef ei ysglyfaeth:  
 I'w nyth, yn syth y saethai,  
 Trwy'r nen, hollti'r awyr wnai;  
 Ar bob perchen aden aeth  
 Fry i nen y frenhiniaeth.

Yn y rhestr y tal estrys  
 Drwy y fro rodiai ar frys:  
 Balch oedd o'i blu chwyddog—syth y rhodiai,  
 Fry y gorddyrchai ei frig ardderchog.

Ar y llyn, mewn dŵr llonydd,  
 O dan frig crogedig wŷdd,  
 Yr alarch hawddgar hwyliai,  
 A difyr hyd y dwfr ai;  
 Addolai'i hardd ddelw ei hun,  
 A'i llun mewn dŵr a'i llonnai.

Chwyrndeithio, troellwibio'n haid,  
 Mewn hwyl, wnai'r chwim wenoliaid,  
 Trwy'r awyr mewn difyr daith,  
 Yn ol ac ymlaen eilwaith



“Ffroenio gan brancio heb rus,  
Yr oeddt yn dra mawreddus.”



Ar dro chwynn, a'r drych arnynt  
Fel arf dur yn gwanu'r gwynnt.

Eraill oedd yn ymdyrru  
Yn ddiffin i'r llwyni'n llu;

Ai'r ednog gôr â dawn gwell  
I fysg y gwrysg ar asgell,  
Wrth ddeddf, neu reddf awen rydd,  
I frig cauedig goedydd :  
A syml leisiau melynion—aneiri  
Oedd yn codi o'r llwyni llawnion.

Yno y falch fwyalchen  
Roddai brawf ar iraidd bren  
O'i newydd gywrain awen,  
A'r perffaith fronfraith ar frig  
Ddyfeisiai beraidd fwsig.  
Y dryw, gerllaw, yn llawen,  
Heb och, a'r brongoch ar bren,  
Ag eofndra ysgafndroed  
Yn chwaraeu rhwng cangau'r coed :  
Mwynber yn nyfnder y nos—mal dwsmel  
Yn llys yr awel oedd llais yr eos.

Aneirif oedd y fawr fyddin  
O bob ffrîw, a lliw, a llin,  
A'r ion yn foddlon a fu  
Ar ddydd oedd ar ddiweddu ;  
Ei ddi-rith fendith o'i fodd  
A ddododd, gan ddywedyd,—

“Ffrwythwch, epilwch ym mhob pau—llennwch  
Yn llon eich elfennau ;  
Tra byd o hyd heb wanhau,  
Parhaed trefn pob rhywiau.”

Daeth y chwechfed dydd—a'i weithredoedd,  
A difyr oedd yr hyfryd foreuddydd.

O forau anarferol!—dihunai  
Pob dawn peroriaethol,  
Yn gytun heb un yn ol,  
O gân i Dduw'n blygeiniol.

Parai'r duw mawr ddistawrwydd,—ataliwyd  
Pob telyn yn ebrwydd,  
Pawb yn uno i wrando'n rhwydd  
Ar hirglod air yr ARGLWYDD;—

“Dyrodde daear heddyw,  
O bob creaduriaid byw,  
Oll yn eu rhyw, llanwer hon  
A'r hiliawg amrywiolion—  
Yr ymlusgiaid, anifeiliaid,  
Yn fywiolion;  
A bwystfilod, llun hynod  
Oll yn union.”

Ar hyn y ddaear hynod  
Wisgai newydd newydd nôd,  
Ger bron, agorai ei bru  
Yn ddiatal o'r ddeutu;  
A'r prysur greaduriaid  
Yn codi o honi'n haid.

Rhai oedd yn chwarau'n rhyddion iach yrroedd;  
Ac ai degau i rodio'r coedwigoedd;  
Rhai ar eu torrau yn mynd drwy'r tiroedd;  
Ac eres lywiau rhai tua'r corsleoedd;  
Ai rhyw lu i'r pawrleoedd,—a heidiau  
Am eu haneddau, tua'r mynyddoedd.

Y llew melynddu blewog,  
Newydd a glân oedd ei glôg;

Ysgydwai'i fwng cysgodol—a rhodiai'n  
Greadur brenhinol;  
Dros bob bryn, dyffryn a dôl,  
Chwareuai'i lais crochruol.

Y cawrfil uthrwanc erfawr  
Oedd yno yn llwybro'r llawr,  
Gan estyn y dwnyn du  
At ei borthiant i'w barthu.

Torraï flys ei felus fant  
Ar lysiau, er ei lesiant;  
A'r rhai a f'ai wrth ei fodd  
A ddoeth hwylus ddetholodd.

A'r march anhafarch nwyfus—a neidiai  
Mewn nodwedd tra champus;  
Ffroenio gan brancio heb rus,  
Yr oedd yn dra mawreddus.

A'i gyflym draed grymus—yn cloddio'r llawr;  
Esgynnai'i erfawr lais cynhyrfus.

Dan nawdd glyd ei newydd glôg,  
At ael bryn hyfryd heulog,  
Y ddof garuaidd ddafad  
Ddeuai mewn hedd a mwynhad,  
Heb berygl yno'n pori  
Yn eorth o'i hymborth hi.

Hithau'r afr ar lethr hyfryd,  
Oedd lawen uwch ben y byd;

Daliai ei thraed, dilithr oedd,  
 Yn yfed gwynt y nefoedd;  
 A choron hardd ei chyrn hi  
 Yn nawdd ac addurn iddi.

A'r fuwch mewn llawnder o fwyd,  
 Ar y ddôl iraidd welwyd,  
 Yn y gwair hir yn gorwedd,  
 Yn mwynhau ei rhan mewn hedd;  
 Cilgnoi heb gyffroi ei phryd,  
 Yn dawel iawn a diwyd.

Llyfnion iyrchod ac ewigod,  
 Tirfon hyddod mewn trefn weddus,  
 Oedd yn pori'n mysg y lili,  
 Oll mewn ynni'n llamu'n hoenus.

Trychfilod hynod eu hanian—luoedd  
 Amlhaent ym mhobman;  
 Rhif llwch y llawr y mawr a'r mân—darddai,  
 A'r isaf lanwai'i orsaffle'i hunan.

Ai ei haden, yn ei helfen,  
 Y wenynen oedd yn enwog;  
 Llawnton gellau, oedd ei chrwybrau,  
 Ni fu diliau'n fwy dihalog.

Pa awen addien, heddyw,  
 All enwi'r oll yn eu rhyw,  
 Y gwâr a'r anwar heinif,  
 Yn eu trefn, eu maint, a'u rhif,  
 O'r trychfil i'r cawrfil certh,  
 A'u mynedfa mewn adferth?

Er hyn oll o waith cadarn allu—DUW,  
 Nid oedd bôd i'w garu;  
 Nid oedd yn llengoedd y llu  
 Berchen deall i'w barchu.

Holl natur oedd fel telyn,—llawenydd  
 Yn llanw pob llinyn;  
 Ond heb law hylaw er hyn—i wau clod  
 I'r DUWDOD ar ei pharod offeryn.

Duw hael ddywedai eilwaith,  
 Fel hyn yn ei ddwyfol iaith,—

“Gwnawn ddyn yn ddernyn addurnawl—yn ben  
 Pob bod iswybrenawl,  
 Dyn a medr i ledu'n mawl—mewn meddiant  
 O raglawyddiant a dawn arglwyddawl.

“Ar ein llun a'n delw ein hunain—yn ben  
 Ar bob perchen adain;  
 Ar holl heidiau'r deifr llydain—ymlusgiaid,  
 A'r anifeiliaid hygar neu filain.”

Yna'r dyn a rodiai yno—yn dal,  
 A delw DUW arno;  
 Heb baid o'i lygaid siriol o—y daeth  
 Tân o wybodaeth yn tanbeidio.

Y dyn! y dyn! dianaf,  
 Oedd lawn urdd ar ddelw ei NAF,  
 Onid oedd gelynnion DUW,  
 Adeiniog ddiafliaid annuw,  
 Dan gynhyrriad teimlad dig,  
 Gan bryder gwyn berwedig,

Wrth ganfod llawn berth Gwynfa—a'r addurn  
 A roddwyd ar Adda?  
 Llunient pan heidient yn ol,  
 Idd ei fythol ddyfetha.

Angylion gwynion a gyd-ddisgynnent,  
 Yn yr awyr o'i gylch y chwareuent,

Yn iaith ysbrydion noeth y sibrydent;  
 Arno'n addoli a moli ymwiliant,  
 Ac yna esgynnent—fry i'w helfen,—  
 Am Eden lawen o hyd chwedleuent.

Dyn wnaed yn fod eneidïol,—yn gadarn  
 Gydiad priodasol;  
 Rhwng dwy anian wahanol,  
 Ef a ddaeth yn rhyfedd ddol.

Rhwng naturiaeth yr angel—puredig  
 Sy'n ysbryd aruchel,  
 A rhes y natur isel—ddistadlaf,  
 A ddyrai y NAF idd yr anifel.

Dyn a wnaed o anian i  
 Ddilyth a syml addoli,  
 I lawn dreulio ei einioes,  
 I foli y RHU a'i rhoes.  
 Yr holl greaduriaid di ri—ddaethan'  
 Yn dyrfa allan i'w gydarfolli;

Tueddent oll at Adda—yn lluoedd  
 O'r llew i'r distadla,  
 Eu henwi wnaeth yn eitha—priodol,  
 Wrth real ddwyfol a rodd IEHOFA.

Yno'n chwannog y rhoddent warogaeth  
 Hwylus i'w banawg ddynol isbennaeth;  
 Addunent yn ddiwahaniaeth—i'w llyw  
 A'i wir, ddiledryw urddol lywodraeth.  
 Amnaid ei lygaid a'i law  
 Oedd yn eu cyfarwyddaw.

Ebai duw,—“Nid da bod dyn,  
 Greadur hawddgar hydyn,  
 Yng Nghwynfa ei hunan heb—ymgeledd  
 I loewi'i annedd â'i sirïol wyneb.”

ION a roes yno'n rasol  
 Gymhares i'w gynnes gôl;  
 Efa lwys yng Ngwynfa lân  
 Roed i Adda'i gŵr diddan.  
 I rodio drwy Baradwys  
 Ei bro glyd a'i llwybrau glwys,  
 A chydlawen chwedleua,  
 Gan ddilyn rhyw destyn da,  
 Heb un clwyf, nefolbwnc glân,  
 Am dduw oedd eu hymddiddan;  
 Gwibiai'r ddau drwy demlau dail,  
 Blodeuog goediog adail;  
 Ara' ddwr oedd eu hardd ddrych,  
 I'w fin yr aent yn fynych  
 I weld eu llun eu hunain,  
 A chanfod pob cysgod cain,  
 Wrth fwynhau yr oriau hyn,  
 A'u mwynhad fel munudyn;  
 Y dydd glwys dedwydd a glân,  
 Ddiangai yn ddiynghan;  
 Mynd yn ddistaw, llithraw'n llon  
 Fel niwl o flaen awelon.

Gwelodd NAF, ARGWYDD nefoedd,  
 Ei waith i gyd, a theg oedd,  
 Gwnaeth yr harddbryd fyd heb fai,  
 A dwedai mai "Da ydoedd."

Rhyw sain enynnai'n y nef,  
 Melysleis mewn aml oslef;

Meibion IOR ar eu goreu—gyweirient  
 Ragorel ganiadau,  
 Rhes hir o bur ser y borau  
 Yno heb rif yn hir barhau.

Cywir roent i'r Hwn fu'n creu—yn gyson,  
Eu mawl o galon ar gwmwl goleu.

Parhau y mae deddfau'r dydd,  
Ein lluniaeth a'n llawenydd,  
Yr haul sydd yn rheoli  
Pob dydd o newydd i ni;  
Hithau'r lloer lathr a'i llu  
Ar y nos sy'n teyrnasu.

Parhau o hyd y mae darpariadau  
Y DUW mawr yn y cyson dymhorau;  
Fe nodir eu trefniadau—yn gywraint,  
Diaflerw beiriant fel hwyr a borau.


Y GWANWYN a wisg wenau,  
Mewn llawn nwyf mae'n llawenhau;  
Yn y gwanwyn y genir  
Prydferthwch tegwch ein tir;


Yr amrywiog, fiodau bywiog,  
Eu goludog frig a ledant,  
A'u sawrau a brysurant,—drwy y nen,  
Yn chwai ar aden y chwa'r ehedant:  
A charuaidd chwareuant,—mewn purdeb,  
Bywhad hyd wyneb y byd a daenant.

Yna'r mwyn wanwyn mewn hedd,  
I'r HAF a dawdd yn rhyfedd,  
Siglo'n dawel dan yr awel  
Dyner, rywiog,  
Mae meusydd meith toreithiog—gwair ac ŷd,  
Heblaw y diwyd goedydd blodeuog.

Dilyna'r HYDREF hefyd  
A defnydd da bara'r byd,







TAWELWCH Y WAWR.

“Gwisg o dân, ei gysgod oedd  
Ar ddwyfron y clir ddyfroedd.”

Yn cario ei enwog goron—a roed  
 Gan Greawdwr ffyddlon;  
 Y coronau cywreinion  
 Diwerth ynt i gyd wrth hon.

Pa ryw deyrn, neu gampwr da,  
 Fyth garia y fath goron?

Minir y crymanau—allan yr a  
 Llawn res o bladuriau;  
 Gwylio'r adeg, casglu'r ydau,  
 O forau i hwyr heb lwfrhau.

Yna daw y du AEF—ei oerni,  
 A'i hirnos yn araf;  
 At y tân eto tynnaf—rhag anwyd,  
 Mynwes yr aelwyd yw'r man siriolaf.

Daw'r ia oer, y llwydrew arian—a'r ôd  
 Puredig dros anian;  
 Rhy drwm yw i'r adar mân  
 Daro sill fedrus allan.

Daeth stormydd yn dywydd du,  
 Swm brochus i'n brawychu.

Trymha eu dinistr, ymdaenant,—coedydd  
 Cedyrn a ddadwreiddiant;  
 Y digllon eigion rwygant,  
 Ewynu ei donnau wnant.

Du echrys ofn a dychryn  
 A ddaw o'r tymbestloedd hyn.

Fel hyn rhedant eu diflin rodau—deall  
 Eu duw mae'r tymhorau;  
 Yn eu pryd maent yn parhau  
 Yn ddilynol ddolennau.

Weithiau crasder, sychder sydd  
 Ar y maes yn ormesydd :  
 (Da oll, er nas deallwn,  
 Ydyw'r holl gyfyngder hwn)  
 Dihoeni mae pryd anian,  
 Och'neidio, gan wywo'n wan,  
 A'i thylwyth hi a welir  
 Ar frig rhostiedig y tir,  
 Yn eu dychryn yn dechreu  
 Am ddwr i gyd ymddyheu,  
 Nes ochain gan eu syched,  
 Ar lawr, a'u genau ar led.  
 O'i diriondeb duw wrendy  
 Lef y rhain o'i breswyl fry;  
 A gair y trugarog Ion  
 Duedda'r sugniedyddion  
 At ddwfn drysor y môr maith,  
 Yn gyson ar negeswaith;  
 Dwfr, yn awr, gwyd â'i fawr nerth,  
 Drwy offer llyfn didrafferth;  
 Y CREWR mawr a'i croewa,  
 A'i fwrw'n ol yn groewddwfr wna;  
 Amlhau wna cymylau nen  
 Hyd lwybrau'r dawel wybren.

Am wlawon mae'n ymliwiaw!—mor ebrwydd  
 Mae'r wybren yn duaw;  
 Hyfryd ddwfr o hyd a ddaw—heb balldod  
 Yn fuan gawod ar fyd f'ai'n gwywaw.

Ac wedi y cawodydd,  
 Yr enfys wiw seithliw sydd,  
 A roddwyd yn arwydd da,  
 A'r iach entyrch rychwanta;  
 Gwenau yr haul digynnwr  
 Yn chwaraeu rhwng dafnau dŵr;  
 Lliwiau anian seirian sydd  
 Yn y gwawl gyda'u gilydd;  
 Hysbys y dengys ei dŵ,  
 A dialedd y diluw.

Hyfryd iawn ar foreu dydd,  
 Ar adeg yr ehedydd,  
 Yw rhoddi tro drwy'r fro fras  
 A chwardd mewn gorwych urddas,  
 I weld deddf esgoreddfa  
 Y wawr hoen ar foreu ha,  
 A gweld y gwllith gloewdeg glân  
 Ar wyneb hawddgar anian;  
 Y blodau a'r llysiâu llon  
 A geir dan ddisglair goron;  
 Maethol iawn yw'r esmwyth wlith,  
 A'i fwynder sydd yn fendith:

Dyry nodd i'n daear ni,—yna 'mad  
 Wedi'i mwydo drwyddi,  
 Wyla'i hunan allan i  
 Gôl hynaws y goleuni.

Ef geir yn brawf, ger ein bron,—o Dduwdoð  
 Y Rhwyf fu'n gosod ei rif yn gyson.

Y nifwl ysgafn hefyd,  
 Ei len ar y ddaear ddyd;  
 Taen ei lwydion dewion dyrch  
 Hyd y llennyrch dillynaf;

A'i welwon ddafnau hylif  
Yn parhau uwchlaw pob rhif.

Mae weithiau'n gorwedd yn y dyffrynnoedd,  
Yn dawel lenni, ar hyfryd lynnoedd;  
Mae weithiau'n farw hyd y meithion foroedd,  
Yn cuddio hwyliâu y llongau'n llengoedd;  
Fe ail nesa fel nofiawl ynysoedd,  
Ac ymaith tawdd am nawdd i'r mynyddoedd;  
Gan wres, o'r achles lle'r oedd,—ymddyrycha,  
Wedi hyn nofia fry hyd y nefoedd.

Y fellten sydd yn foltiawg,—hon lywir  
Gan law Hollalluawg;  
Troi allan ar hynt droellawg—wna'r gwefrdan,  
A gwywa anian dan glwyf gewynawg.

Yr adeiniog drydaniaeth—a ysgwyd  
Esgyrn Créadigaeth;  
Oni welwa dynoliaeth  
Gan ofn y DUW mawr a'i gwnaeth!

A thrwst y rhuthr aruthrol—drwy y dŵr  
Ydyw'r daran nerthol;  
Rhydd dafod, arwydd Dwyfol—i bob glyn,  
Clogwyn, a dyffryn, a bryn wybrenol.

Y fellten wyllt a'r daran,—y peiriant  
Sy'n puro'r nef lydan,  
Yw uchenaïd groch anian,  
Neu lef duw drwy lif o dân.

A rhan o waith ein HIOR ni  
Yw'r mynor oll a'r meini;  
Smaragdus, a sardius sydd  
Waith ei law, y doeth Lywydd;

Y grut bras, a'r topas teg,  
 Y cwrel, a phob carreg,  
 Yr onix tlws, eirianwawr,  
 Y jaspis, gabis, deg wawr,  
 Lugur a'r beryl hygain,  
 A rhyw fyrdd o bob rhyw fain,  
 Yr aur, y plwm, a'r arian,  
 Creig y môr, a'r cerrig mân.

Llaw fy Ion wnae'r holl fwnau,—ef a wnaeth  
 Drefn ar eu gwelyau;  
 Gyrr wedyn agoriadau  
 I ddyd gael iddo'u rhyddhau.

Ni cha unoes, er chwennych,  
 Gloddio i gell pob mwnglawdd gwych;  
 Yn araf daw'r mwn eirioes  
 I'r lan i oes ar ol oes.

Mawl! mawl! i'r anfeidrawl FOD,  
 Prif addurn pob rhyfeddod;  
 Deued, dihuned anian  
 Ei thonau, a'i doniau'n dân.


De'wch fydoedd filoedd, cydfolwch,—chwithau  
 Yn eich iaith dadgenwch,  
 Y fywiol fflam o fawl fflwch  
 Drwy y nen draw enynnwch.

Cór hoewber y cerubiaid,—anadlwch  
 Mewn odlau bendigaidd;  
 Cydunwn, pyn-ciwn oll heb baid—yn bêr,  
 A seinier offer tanllyd seraffiaid.

Y dwyfol ION, tydi a foliannwn,  
 Dy fawredd a glodforwn—O ARGLWYDD,  
 Yn union it' rwydd ogoniant a roddwn.

Can's teilwng, teilwng wyt ti,  
 Ti a luniaist oleuni :  
 Agoriad un gair o dy enau—dwyfol,  
 Lefarai nerthol fawrion wyrthiau.

Y duw ddylid addoli,  
 Onid Tad pob peth wyt ti?  
 Gwelir dy waith disglair di  
 Drwy fydoedd dirifedi ;  
 Adrodd nerth dy roddion wnant,  
 A'th glod cyfoethog ledant :  
 Mawl! mawl! tragwyddawl ar goedd,  
 I'r bod sy'n llywio'r bydoedd!





MARWNAD MICHAEL ROBERTS.

AWEN Cymru! cywilyddia;  
Pa le buost yn ymdroi?  
Er pan hunodd MICHAEL ROBERTS  
Mae blynyddau wedi ffoi :  
Cenaist alarebau llyfnion  
I rai dinod yn eu dydd;  
Gwelaist gladdu seraff Cymru  
Heb un deigr yn ar dy rudd!

MICHAEL ROBERTS! mae ei enwi  
Yn agor beddau'r fynwes hon,  
Ac yn codi hen adgofton  
I ymrithio ger fy mron :  
Wyf fel gwr mewn gweledigaeth  
Yn ail dreulio bore f'oes  
Ymysg dylanwadau nerthol  
"Yr ymadrodd am y groes."

Llawer wyneb welaf yma  
Yn siriol wenu arna i'n awr,  
Roddwyd ers blynyddau bellach  
Ym mhridd wely oer y llawr :  
Teimlo 'rwyf yr hen oedfaon—  
Teimlo'r awel yn yr hwyl—  
Clywed adsain cân y moliant,  
"Fel llais tyrfa yn cadw gwyl."

Taener clodydd John Elias—  
Sonier am ei ryfedd ddawn—  
Casgler holl engreifftiau Cymru  
O hyawdledd nerthol, llawn :  
Gwell i mi oedd dawn trydanol  
Gwrthddrych yr alargerdd hon;  
Medrai ef y ffordd i gelloedd  
Dyfnaf, t'w'llaf, dan fy mron.

Nid oedd neb yn nyddiau'm hie'nctyd  
 Garwn glywed fel efe;  
 Pan agorai ei wefusau  
 Teimlwa Dduw yn llenwi'r lle;  
 Drychfeddyliau yn disgleirio  
 Drwy'r ymadrodd treiddiol mwyn,  
 Nes oedd creigiau hen galonnau  
 Yn ymollwng dan y swyn.

Nid drwy floedd, a geiriau gweigion,  
 Y cyrhaeddodd y fath radd;  
 Nid oes niwed mewn taranau,  
 Y mellt distaw sydd yn lladd:  
 Yr oedd swyn ei ddoniau esmwyth  
 Fel awelon rhwng y dail;  
 Medrai ysgwyd teimlad plentyn  
 A'i gydwybod bob yn ail.

Mae dychymyg eto'n clywed  
 Yng nghlogwyni Ebal draw,  
 Adsain hir y llais effeithiol,  
 Fu'n cydrwymo myrdd mewn braw:  
 Pan gyhoeddai'r addewidion  
 Ar bob gair gosodai swyn;  
 Y mae heulog fryn Gerazim  
 Byth yn anwyl er ei fwyn.

Cofir rhai oedfaon rhyfedd  
 Yn yr hen Gymdeithasfau,  
 Gan ryw luoedd yn y nefoedd  
 Gawsant ynddynt eu bywhâu,  
 Pan y torrai'r cwmwl tanllyd  
 Uwch ben y gynulleidfa lawn,  
 Myrdd mewn gwasgfa am eu bywyd  
 Yn cydwaeddi "Beth a wnawn?"

Cofir byth yr oedfa hynod  
Yng Nghymanfa Dinbych gynt,  
Pan y plygai'r gynulleidfa  
Fel y goedwig dan y gwynt :  
Gwelai'r dorf y farn yn eistedd—  
Bydoedd yn llesmeirio 'nghyd—  
Ond y dyn trwy ras yn sefyll  
Ger bron Barnwr mawr y byd.

Bu yn wasanaethwr ffyddlawn  
I'r Trefnyddion lawer blwydd ;  
Tynnodd atynt gorff y werin  
Drwy ei anghymharol lwydd ;  
Cyn bod adeiladau mawrion,  
Cyn i'r mitoedd amlhau :  
Eraill sydd yn awr yn medi  
Lle bu ef yn diwyd hau.

Ni chyfodid un disgwyliad  
Drwy ei olwg wledig iawn,  
Oni buasai'r llygaid tanlyd  
Yn bradychu trigle'r dawn :  
Dan y symledd gwledig isel  
Ceid addfedrwydd barn a dysg,  
Wnaeth i lawer coeg ymhonnwr  
Deimlo'i bwysau yn ein mysg.

Myfyrdodau dwfn, diorffwys,  
Pryder meddwl, llafur mawr,  
Oeddynt ormod baich i natur—  
Suddai dan y pwys i lawr,  
Chwarddai uffern, wylai Sion,  
Synnai'r byd at drefn y Nef,  
Pan y d'ryswyd y cylymau,  
Rhwng ei gorff a'i feddwl ef.

Bu y cysegr sancteiddiolaf  
 O dan len dros lawer blwydd,  
 Tad yng Nghrist i lawer enaid,  
 Fel yn blentyn yn ein gwydd;  
 Mor aneglur yw bwriadau  
 Dirgel droion trefn v Nef!  
 Arbed doniau gwŷr cyffredin,  
 A charcharu'i ddoniau ef!

Bum mewn tristwch pan yn edrych  
 Ar adfeilion palas gwych;  
 Gweld colofnau wedi cwmpo  
 A'r cerfiadau'n wael eu drych:  
 Felly gwelwyd Michael Roberts,  
 Teimlwyd ger ei fron yn brudd,  
 Chwyddai'r fynwes gan ei thristwch,  
 Gwelwyd deigr yn ar bob grudd.

Ond datodwyd ei gadwynau,  
 Cyn ei farw daeth yn rhydd;  
 Gwelwyd ef uwch ben y dyrfa  
 Cyn machludo haul ei ddydd:  
 Yr hen ddawn ganmolai'r tadau  
 Glybu'r meibion wrth eu bodd,  
 Daeth fel comed drwy'r wybrennau  
 Dros ychydig—yna ffodd.

Darfu'r llafur, darfu'r lludded,  
 Darfu profiad oriau prudd;  
 Mae y deigr-ddafnau olaf  
 Wedi rhedeg dros ei rudd;  
 Mud yw'r genau fu'n cyhoeddi  
 Addewidion fel y mêl,  
 Mae cyfryngau'r pur hywadledd  
 Hyd y farn i fod dan sel.

Dymunasem weld ei ysbryd  
Yn cyrhaeddyd y nef draw,  
Mil o olygfeydd newyddion  
Yn ymagor ar bob llaw :  
Hen gyfeillion yn ymgasglu  
I'w groesawu ef ynghyd,  
Gan adgoffa hen oedfaon  
Gafwyd yma yn v byd.

Ond er cystal oedd cyfeillach  
Plant yr anial yn y nef,  
Sylwedd mawr ei weinidogaeth  
Aeth a'i holl feddylfryd ef ;  
Syllai, synnai, plygai, molai  
Heb yn wybod iddo'i hun,  
Pan y cafodd gyflawn olwg  
Ar Fab Duw, Gwardwr dyn.

Gorffwys, gorffwys, hen bererin,  
Cwsg i ben dy felus hun,  
Nes daw Crist i'th alw i godi  
Ar ei ddelw hardd ei hun ;  
Ni bydd ol y bedd na phechod,  
Nac un nychdod ar dy wedd,  
Ti gei ganu buddugoliaeth  
Ar adfeilion oer y bedd.

Mae ei enw'n perarogli  
Eto yn eglwysi'n gwlad,  
Fe gyfeirir ato heddyw  
Gan ryw luoedd fel eu tad :  
Carant adrodd ei bregethau,  
Carant son am lawer gwledd,  
Carant sw'n llyth'rennau'i enw,  
Carant edrych ar ei fedd.

## "FY MAB."

Bu farw! do, bu farw!  
 Gadawodd ninnau'n syn:  
 Bu farw! do, bu farw!  
 Pwy all esbonio hyn?  
 Onid oedd modd i'n dysgu ni  
 I deimlc gwagedd byd a'i fri,  
 Heb ddwyn y bachgen hwn o'n plith—  
 Heb lethu'r fron dan deimlad chwith?  
 Ai rhaid oedd in' ei golli ef  
 Er dwyn ein bryd yn fwy i'r nef?  
 Maddeu, O Dduw! maddeu i un  
 Sy'n methu maddeu iddo'i hun,  
 Am feiddio barnu llwybrau'r Ior,  
 A phlymio amhlymiadwy fôr.  
 Distawed cnawd a rheswm  
 O flaen ewyllys Duw;  
 Rhy ddoeth i gyfeiliorni,  
 Rhy dda i'n drygu yw.

Mae gwagle ar yr aelwyd,  
 Mae gwagle wrth y bwrdd;  
 Y mae rhyw amddifadrwydd  
 Ym mhobman yn ein cwrdd.  
 Pa le mae Dewi brwd ei fryd,  
 Oedd ganwyll llygad in' i gyd?  
 Pa le mae oracl y ty,  
 A'i lygad craff, a'i feddwl cry'?  
 Pa le mae'r bachgen mawr ei ddysg,  
 Oedd fel henafgwr yn ein mysg?  
 O gellwair prudd! ai bychan yw  
 Archollion dwfn y galon friw?  
 Mae'r bedd yn gwawdio'n dagrau ni,  
 Gan ddweyd, "Mae'r bachgen ynnof fi."

O fedd! nac ymfalchïa,  
 Ei wisg sydd ynnot ti;  
 Mi glywa'r nef yn ateb,  
 " Mae Dafydd gennyf fi."

Os trymlyd yw adgofion  
 Mae ynddynt ryw foddhad;  
 Mae ynddynt hyfryd dristwch,  
 A phoenus esmwythâd!  
 Mae Dafydd bach, a'i wyneb llon,  
 Mewn adgoi beunydd ger ein bron;  
 O ddydd i ddydd, i'r olwg daw  
 Rhyw ddernyn tlws o waith ei law:  
 Peth gadwai gwylder mawr yn gudd,  
 Sy'n awr yn dod i oleu dydd,  
 Nes treiddia ias trwy'r ysig fron,  
 Wrth gofio am y llygaid llon  
 Fu'n edrych ar y pethau hyn,  
 Yng nghanol myfyrdodau syn.  
 Ai rhyfedd yw fod hiraeth  
 A phoen yn gwywo'n gwedd  
 Wrth geisio a methu peidio  
 Myfyrio am y bedd?

Addurnwyd ei athrylith  
 A holl brydferthion gras,  
 Fel ser yn derbyn tlyzni  
 O liw yr awyr las:  
 Pan gilio'r haul o wydd y byd,  
 Mae'n euro'r gorwel maith i gyd;  
 Adlewyrch o'i ogoniant ef  
 Sy'n taenu gloewder dros y nef:  
 Felly pan aeth yr enaid pur  
 O'r corff fu'n nychu dan ei gur,  
 Gadawodd rywbeth ar y wedd  
 I adlewyrchu nefol hedd:—

Y siriol wên ni chiliodd draw  
 Ym mhresenoldeb brenin braw.  
 O fewn yr arch a'r amdo  
 Arosodd heb gyffroi—  
 Bydd yno pan bo'r meirw  
 O'u hirgwsig yn deffroi.

'Roedd lle ein brawd yn barod  
 Yn oriel fawr y nef;  
 Anfonodd Iesu'r cerbyd  
 I'w gyrchu tua thref :  
 Ar derfyn ei ddaearol daith,  
 Ca'dd newid lle, heb newid gwaith;  
 Yn awr mae'r enaid mawr ei rym—  
 Yr holl alluoedd treiddgraff llym—  
 Yn ymddigoni mewn mwynhad  
 Uwchben rhyw nefol eglurhad;  
 Rhyw newydd bwnc sy'n dod o hyd  
 I borthi ei awyddus fryd;  
 Gwel ryfeddodau'r fythol oes  
 Yn canolbwyntio yn y groes.  
 Un olwg arno heddyw  
 Dawelai frwydr y fron,  
 Ac am y llanc anwylaf  
 Y soniem ni yn llon.

O grefydd nef-anedig!  
 Mor werthfawr ydyw hi!  
 Heb ei chysuron dwyfol,  
 Pa beth a wnaethem ni?  
 Mae hon yn gwneuthur angeu ei hun  
 Yn gymwynaswr mawr i ddyn;  
 Os ymlid mae y saint o'r byd,  
 Eu casglu mae i'r nef ynghyd,  
 Rhydd gysur cryf i'r enaid gwan,  
 Egyr ddrws gobaith ym mhob man :



Rhydd oleu yn y farwol gell—  
 Sef gobaith adgyfodiad gwell :  
 Dengys ein cyfaill yn y nef  
 Os na ddaw'n ol, awn ato ef :  
     Pan ddele'r cerbyd breiniol  
     I'n cyrchu ninnau ffwrdd,  
 Wrth borth y ddinas nefol  
     Daw yno UN i'n cwrdd.

## Y GWEFRHYSBYSAL.

AM fawr-waith dyn myfyriaf,—ei faidd hyf,  
 A'i ddyfais ryfeddaf;  
 Pwy noda'i nerth? Pwy ond Naf  
 A wêl ei derfyn olaf?

E fydd yr holl elfennau—i weini  
 I'w wahanol reidiau;  
 Deil y mellt, gwibfellt sy'n gwau,  
 I'w gosod ar negesau.

Brenin pob rhyw beirianwaith—ys yw bys  
 Gwefrhysbysai perffaith;  
 Fe ddwed yn ei ryfedd iaith  
 Hanes y byd ar unwaith.

Ba eisiau hen hysbysydd—a'i hwylybren  
 Talbraff ar y mynydd?  
 Y fwyn golomen-ni fydd  
 I'n gwlad yn neges-gludydd.

Rhed y gwefr hyd y gwifrau,—chwai noda  
 Farchnadoedd a'n ffeiriau;  
 Drwy'r wlad mewn eiliad mae'n hau  
 Newyddion o'n seneddau.

Trwy y môr hallt a'r mawr ellydd—digol!  
 Y dyga bob newydd;  
 Difin red fel awen rydd,  
 Heibio'r awel drwy'r broydd.

Trwy y gwefr, y gwefr digyfryw, nesir  
 Teyrnasoedd i gydfyw;  
 Newyddion a gawn heddyw  
 Ar aden y fellten fyw.

Dyd hwn ei didau tynion—am ein byd,  
 Mynn bawb yn gymdogion;  
 Nid all tir na llid hallt donn  
 Luddias ein cynhadleddion.


Y gwefr rydd gyfarwyddyd—i lywio  
 Porthleoedd yr hollfyd,  
 Ehed mewn rhaniad munud  
 O begwn i begwn byd.

A'i law yn ddistaw fe ddyd—ei nod ar  
 Y dyn-lofrudd gwaedlyd;  
 A daw a'r hyf leidr hefyd  
 I ingoedd barn yng ngwydd byd.

I'w bwyll y daw'r byd bellach—i fyw'n well  
 Drwy fwynhau cyfeillach;  
 Heb wall ceir pob lliw ac âch  
 I feithrin pur gyfathrach.

Celfyddyd o hyd mewn hedd—aed yn uwch,  
 O dan nawdd tangnefedd;  
 Segurdod yw clod y cledd,  
 A rhwd yw ei anrhydedd.





BOD AWEN

A gardd y "Blodeuyn Olaf."

## CATHARINE.

YR oedd teulu yn byw yng nghwr uchaf y Ceunant, tua thair milldir a hanner oddi-wrth ein capel ni. Nid oedd un briffordd y dyddiau hynny yn myned yn agos i'r lle; o ganlyniad, yr oedd y preswlyddion yn neillduedig oddiwrth y byd o'u cwmpas. Ar amser ffeiriau Llan— yn unig y gwelid y gŵr yn ymgynysgu â'r byd. Yr oedd mân-borthmyn neu *jackmyn* y dyddiau hynny yn meddu cystal llygaid a'u holynwyr yn y dyddiau hyn. Arferent fyned i gyfarfod, neu yn hytrach i rith-oddiweddyd gŵr y Ceunant ar ei ffordd i'r ffair. Cymerent arnynt mai amaethwyr fel yntau oeddynt, a chwyment yn dorcalonnus iawn oberwydd iselder y prisiau, &c. Gofalent bob amser fod un o'r giwed yn cyfarfod y fintai cyn cyrraedd y Llan. Cynhygient ar eiddo yr amaethydd dwl, a phrynnent ei anifeiliaid am lawer llai na'u gwerth; yna gofalent am ei feddwi tu hwnt i derfynau ymwybodaeth, rhag i neb ddynoethi eu castiau iddo. Ond agorwyd ei lygad o'r diwedd i weled dichellion *jackmontaeth*—y pethau nesaf at ddichellion Satan ei hun; a byth ar ol hynny byddai yn cario pastwn aruthrol gydag ef i'r ffair, a bygythiai derfynu gyrfa pob *jackmon* a gynhygiai ddyfod yn agos ato.

Yr oedd teulu y Ceunant yn ddiarhebol am eu hanwybodaeth, a garwedd eu harferion. Dywedid nad oedd llyfr o un math yn y tŷ; yn wir, ni fuasai ond cost ofer iddynt geisio un, gan nad oedd yno neb yn alluog i ddarllen. Nid oedd nemawr wahaniaeth yno rhwng Sul, gwyl, a gwaith. Byddai y gŵr yn myned i

eglwys y plwyf ar Sul y Pasg ambell flwyddyn, ac ystyriai ei fod yn cyflawni pob peth wrth wneud hynny. Nid oedd wedi bod mewn addoldy ymneillduol erioed, ac nid oes un o Buseyaid y dyddiau hyn yn edrych gyda mwy o ddirmyg ar Ymneillduaeth nag yr edrychai gŵr y Ceunant; a'r unig wahaniaeth rhwng Siôn y Ceunant a hiliogaeth lwyd-wynebog Dr. Pusey yw, fod un yn barod i groeshoelio Ang-hyddffurfwyr, "heb wybod beth oedd yn ei wneuthur;" a'r lleill, "a hwy yn gwybod eu drygioni." Buasai Siôn mor selog a Pusey i losgi pob *Dissenter*; ond nid o'r un ffynnon y buasai sel y naill a'r llall yn tarddu.

Mi a gymerais yn fy mhen, fel y dywedir, i roddi tro i gyffiniau y Ceunant, yn fuan wedi fy sefydliad yma. Yr oedd fy nghyfeillion yn fy mherswadio i ymgroesi (maddeued y darllenydd i mi am arfer y gair; y mae llawer o olion Pabyddiaeth ar ein hiaith, yn gystal ag ar enwau lleoedd, &c.). Ond yr oeddwn yn teimlo fy hun yn lled wrol, ac felly cychwynais ar fore teg yn y Gwanwyn tuag yno, gan dybied nad oedd neb yno yn fy adnabod. Wedi cerdded am awr a hanner, daethum o'r diwedd i olw yr hyn a elwid yn dŷ. Gwelais haid o blant yn rhedeg i'r tŷ ar fy ymddanghosiad, fel cwingod yn rhedeg i'w tyllau. Teimlwn erbyn hynny fod awr y brofedigaeth yn ymyl. Cyn pen dau funud, daeth y gŵr a dau o'r meibion ataf, ac ar eu hol y wraig a gweddill y plant. Yr oedd golwg anneniadol dros ben arnynt. Ofer ceisio darlunio eu gwisgoedd, oblegid nid oeddynt o fewn cylch un ffasiwn a gydnabyddid gan y byd gwareiddiedig. Nid oedd crib, na brws, nac olew, wedi halogi pen-

nau neb o honynt erioed. Yr oeddynt yn llyg-adrythu arnaf, gan sylwi yn fanwl ar fy ymddanghosiad o wadn fy esgid hyd goryn fy het. Ym mhllith y pethau hynod yr oedd cadwyn fy *watch*. Yr oedd y gŵr wedi gweled oriadur unwaith neu ddwy, a gofynnodd i mi ddangos yr eiddof fi i'r teulu. Tynnais hi allan yn siriol, ac ni fu mwy o synnu yn y *Great Exhibition*, nag oedd yn y Ceunant y bore hwnnw. Yr oeddynt ymron a gwallgofi mewn syndod pan welsant y peirianwaith mewnlol. Ymdrechais egluro iddynt pa fodd yr oedd yn gweithio, nes oedd eu hwynebaw yn cyfnewid: yn wir, yr wyf yn meddwl eu bod yn ymylu ar sirioldeb cyn i mi roddi yr oriadur yn fy llogell yn ol. Yna gofynnodd Siôn i mi yn llym,—“Ai chi di'r dyn sy'n camu pennau pobol yn y capel isa?” Wel, gwelais fod yn rhaid barfu'r llew; dywedais nad oeddwn yn disgwyl fod yno neb yn fy adnabod; ond gan ei fod wedi gofyn y cwestiwn i mi, nad oeddwn am wadu fy swydd, ond nad oeddwn yn arfer camu pennau pobl—fod fy mhen i mor wastad a'i ben yntau, ac y dymunwn i bennau fy mhobl fod felly. “Na wiw i chi wadu,” ebe Siôn, “mi glywais eich bod yn camu eu pennau, ac yn gwneud i'r bobl eich cadw am hynny; ydi hynny ddim yn wir?” “Ni wiw i chwi na minnau,” ebe fi, “gredu pob peth a glywn yn y byd yma. Yr oeddwn wedi clywed cyn dyfod yma heddyw mai rhyw anifail direswm o ddyn oeddych chwi, ac na fedrech siarad nac ymddwyn fel dyn; ac mi a ddaethum yma heddyw er mwyn eich gweled a barnu drosof fy hun. Yr wyf fi yn eich gweled yn ddyn clyfar iawn.” Gwelais mewn eiliad fod y

bluen yn ateb i'r dwr, a mentrais ychwanegu,—  
 “Beth pe baech chwithau yn dyfod i'r capel y  
 Sul nesaf i gael gweled beth ydym yn wneuthur  
 yno?” Gyda rhagymadrodd o lw ofnadwy, dy-  
 wedodd, pe buasai yn myned i ryw gapel, y  
 daethai ataf fi. “Beth yw pris y triog yn y  
 pentre rwan?” eb efe. Ofer oedd i mi addef  
 fy anwybodaeth, a dweyd mai duwinyddiaeth,  
 ac nid *grocery*, oedd fy nghanen i o wybod-  
 aeth. Heblaw hynny, buasai dangos anwybod-  
 aeth ar bwnc y triagl yn codi rhagfarn yn fy  
 erbyn, ac yn andwyo y cwbl ar unwaith.  
 “Rhywbeth yn debyg,” ebe fi, gan ymddangos  
 yn bur ddoeth. “Be di pris y menyn bach?”  
 ebe y wraig. Yr oeddwn yn digwydd gwybod  
 hynny dipyn yn well, oblegid pris pwys o  
 fenyn fyddai gwraig Tygwyn yn roddi at yr  
 achos bob wythnos.

Wedi ateb eu cwestiynau, dywedais mai fy  
 mhrif bwnc i oedd Iesu Grist. Crybwyllais  
 ychydig am ei waed, ei ing, &c. Er nad oedd-  
 ynt yn cymeryd nemawr ddyddordeb yn y peth-  
 au hynny, sylwais ar un eneth tua deuddeg oed  
 yn gwrando yn astud ar yr hyn a ddywedais.  
 Gofynnais iddi ddyfod i lawr i'r pentref bore  
 Sul, a dywedais y cai aros hyd yr hwyr gyda  
 ni. Edrychodd i fyny i wyneb ei thad, er  
 mwyn cael rhyw arwydd ym mha gyfeiriad yr  
 oedd y gwynt yn chwythu yn ei ysbryd ef.  
 “Welwch chi'r graig acw?” eb efe. “Gwelaf,”  
 meddwn innau. “Welwch chi'r afon acw?”  
 “Gwelaf.” “Pan fo'r graig acw'n fenyn, a'r  
 afon acw'n llaeth, gellwch ddisgwyl gweled  
 rhywun o'r tŷ yma yn eich capel. Glwyswr  
 ydw i, ac nid oes dim a wnelwyf â'r grefydd  
 yma.” Gwelais ei bod yn bryd i mi droi ym-



aith erbyn hynny. Ni dderbyniais sarhad oddiar eu llaw, ac ni theimlais ddim yn peri i mi edifarhau am gymeryd yr hynt foreuol. Yn wir, yr oedd golwg yr eneth a nodais yn peri i mi obeithio y gallai rhywbeth ddyfod o hyn. Bore drannoeth daeth yr eneth i'n tŷ, ac ymddanghosai yn llawen dros ben. "Mi gaf fi ddwad y Sul," ebe hi. "Purion ngeneth i, pa sut y cawsoch gennad?" "Mam ddaru bers-wadio nhad, a dywedodd y gwnai hi gyfleth iddo os cawn; ac yr wyf wedi bod yn ceisio triog i'w wneud," ebe'r eneth druan, a'i handl yn ei gwddf gan bryder, yswildod, a brys. Bore Sul a ddaeth, ac yr oedd Catherine wrth ein drws erbyn wyth o'r gloch. Helynt fawr a gafwyd i'w pherswadio i fwyta ac i siarad. *Edrych* yr oedd ar bob peth. Byddaf yn meddwl am dani yn wastad pan ddarllenwyf am Topsy yn "Uncle Tom's Cabin." Wedi iddi ymgyn-nesfno tipyn, aeth yn ddigon hyf i neshau at y dresser, a dechreuodd *deimlo* pob peth oedd arni. Yr hyn a'i tarawodd â syndod neillduol oedd yr addoliad teuluawl. Nid oedd ganddi un amgyffred am benlinio mewn gweddi. Aeth fy ngwraig â hi i'r capel; gosododd hi wrth ei hochr yn y set. Siaradai fel y bydd plant tair blwydd oed yn siarad yn y capel, yn enwedig pan ddalai rhyw un a adwaenai i mewn. Yr oeddwn yn pregethu y bore hwnnw ynghylch y wraig weddw a'r olew. Fel yr oeddwn yn myned ymlaen, gwelais ei sylw wedi ei ennill. Yr oeddwn yn awyddus i gael gwybod pa effaith oedd hanes gwyrth yn gael ar feddwl anoleuedig. Gofynnais iddi pa fodd yr oedd yn leicio y capel, &c. Atebai ei bod

yn ei weled yn lle braf iawn; a gofynnodd i mi y cwestiynau rhyfeddaf a ofynwyd erioed yng-hylch y bregeth. Deallais fod ganddi ryw syniadau am grefydd, yn parotoi ei meddwl i gredu mewn gwyrthiau. Aeth i'r Ysgol yn y prydnewn, a bu gyda ni yn yr oedfa hwyrol. Cymerodd fy ngwraig ddyddordeb neillduol yn yr eneth; a phenderfynodd, os cai gydsyniad ei rhieni, i'w chymeryd yn wasanaethyddes, a'i dwyn ymlaen mewn gwybodaeth. Bu ei thad yn agos i flwyddyn cyn rhoddi ei gydsyniad; ond pan oedd efe groesaf, llwyddai Catherine i fedru dod i'r moddion yn ddigoll. Dysgodd ddarllen yn fuan. Yna rhoddwyd iddi fenthyg Beibl a Thaith y Pererin i fyned gyda hi adref. Darllennai y rhai hynny i'w brodyr a'i chwiorydd. Dysgodd iddynt hwythau sillebu a darllen, a denodd hwynt gyda hi i'r capel. Wedi iddi ddyfod atom i fyw, daeth yn aelod cyflawn o'r eglwys, ac yn athrawes ffyddlawn yn yr Ysgol Sul. Nid oedd arnom ni fel teulu lawer o angen am wasanaeth geneth o'i hoed hi; ond yr oeddym yn cael yr hyfrydwch o weled un wedi cael ei chipio fel pentewyn o'r tân, ac yn cael ei pharotoi i ogoniant y nef. Wedi iddi fod gyda ni dair blynedd, cawsom le iddi gyda Mrs. Ll—, Bryn—. Er bod y feistres yn dra gelynlol at Ymneillduaeth ac Ymneillduwyr, deuai Catherine dair gwaith bob Sabbath i'r capel, ac ni thafodd ei meistres un rhwystr ar ei ffordd. Dywedai Mrs. Ll—, "Y mae Catherine yn gofalu na byddo dim gwaith yn colli drwy ei bod hi yn myned i'r capel; felly yr wyf yn cyfrif mai nid fy amser i, ond ei hamser ei hun, y mae yn gymeryd. Nid oes yn y wlad


ei gwell fel morwyn, ac nis gwn beth a wnawn hebddi." Yr oedd ein chwaer ieuanc yn cynhyddu cymaint yn ei rhinweddau, nes y tybiodd Mrs. Ll— ei bod yn haeddu mwy o gyflog nag a allai hi roddi iddi; ac ysgrifennodd at foneddiges gyfoethog yn Llundain yn ei chylch. Daeth llythyr yn ol yn hysbysu fod yn dda gan y foneddiges gael ei hanes—y rhoddai £20 o gyflog y flwyddyn gyntaf iddi; ac yr ychwanegai ryw faint bob blwyddyn os byddai yn ei boddhau.

Yr ydym wedi dilyn hynt y chwaer ieuanc ragorol hon, nes yr ydym yn ei chael yn gwasanaethu yn nheulu un o brif areithwyr y Senedd. Yr oedd y boneddwr hwn yn cadw tri o dai—un yn Llundain, un yn Bath, ac un yn Norfolk. Gwelwn hi ynghanol profedigaethau newyddion a pheryglus y *servants' hall*— profedigaethau a fuont yn angeuol i grefydd a moesoldeb miloedd o bobl ieuainc. Ceisiwyd ar y cyntaf wawdio ei chrefydd allan o honi; wedi hynny ceisiwyd ei denu allan o honi drwy rith-garedigrwydd, a hudoliaethau pobl-ogaidd; ond daliodd fel aur pur yn y ffrwn. Gwelodd, gyda galar, y gwastraff a'r anonestrydd oedd yn myned ymlaen. Bu mor onest a rhybuddio ei chydweinidogion yn garedig, ac awgrymodd y dylai eu meist'r gael gwybod yr hyn oedd yn myned ymlaen. Tynnodd hynny ystorm ofnadwy am ei phen. Gofynnai iddi ei hun yn fynych, "Beth yw fy nyledswydd?" Yr oedd ei chydwybod yn dweyd mai achwyn ar ei chydweinidogion a ddylasai; ond yr oedd moesreolau y *servants' hall* yn gosod allan achwyniad yn waeth na lladrad na llofrudd-

iaeth. Bu yn gyfyng arni dros dymor; ond wrth weled datguddiadau newyddion o anonestrwydd o ddydd i ddydd, penderfynodd amlygu y cwbl i'w meistres. A rhag iddi ymddangos yn gweithredu yn fradwrus, gofynnodd un bore i un o'r *waiters*, yng ngwydd yr holl weinidogion, i ofyn i'w meistres a gai hi siarad â hi. Cyn pen awr daeth galwad iddi ymddangos ger bron ei meistres. Dywedai wrthi fod yn ddrwg iawn ganddi ei blino; ond na fedrai aros yn hwy yn ei lle yng ngolwg y pethau oedd yn myned ymlaen yn y tŷ. Dywedai ei bod wedi cael ei dwyn i fyny yn grefyddol, ac mai gair Duw oedd ei rheol. O ganlyniad, nas gallai gydymffurfio ag arferion y gweinidogion, y rhai oeddynt i'w thyb hi yn anonest. Ymddangosai ei meistres yn ffroenuchel, a dywedodd ei bod hi yn deall pa fodd i gadw *establishment* cyn iddi hi ddyfod yno, a bod croesaw iddi fyned ymaith os oedd yn anfoddloni ar ei lle; ar yr un pryd dywedai, "Mi a roddaf y character goreu i chwi." Wedi iddi ddyfod i blith y gweision a'r morwynion, ymddanghosent oll yn bryderus a lliidiog, nes iddi hi ddweyd wrthynt ei bod yn ymadael, yr hyn a barodd sirioldeb mawr.

Ymhen deuddydd daeth galwad drachefn i'r Gymraes ymddangos ger bron ei meistres. "Y mae eich meist'r a minnau wedi ystyried yr hyn a ddywedasoch y dydd o'r blaen," ebe Mrs. B—, "ac yr ydym yn barnu y dylem fod yn ddiolchgar i chwi am eich datguddiadau; byddwch gystal ag adrodd yr hyn sydd yn ymddangos i chwi yn anonestrwydd yn y tŷ." Adroddodd ein chwaer ieuanc ddigon i beri ymchwiliad manwl, a chafwyd allan fod mas-





CARTREF CYMREIG.

"Mynwes yr aelwyd yw'r man siriolaf."

nachwyr anonest mewn cynghrair â'r gweini-dogion yn yspeilio eu meistr, a bod y *servants' hall* yn costio mwy na'r *drawing room* iddo. Diweddodd yr ymchwiliad mewn chwyldroad cyffredinol; trowyd yr holl weinidogion ymaith ond y Gymraes, yr hon a dderbyniodd anrheg o £10 gan ei meistr am ei ffyddlondeb. Codwyd hi i sefyllfa o ymddiriedaeth yn y ty, a bu yno bymtheg mlynedd. Drwy gynhildeb a gofal, casglodd swm mawr o arian, er ei bod yn cynhorthwyo llawer ar ei rhieni a'i brodyr a'i chwiorydd. Tair gwaith yr ymwelodd â'i chartref yn ystod yr amser, ac ar un o'r adegau hynny y daeth a'r dodrefn newydd ar y pulpud. Yr oedd ei dull diymffrost a'i gwisgiad plaen yn destyn siarad cyffredinol. Gwelsom lawer o enethod yn dyfod "adref i Gymru" wedi gwario eu holl lafur am wisgiadau gwyich, i dorri ffugyr ymysg eu hen gymydogion, heb ganddynt hanner coron i'w roddi i fam dlawd: ond yr oedd gan Catherine wisgiad syml, da, —digon o Gymraeg, a digon o arian yn ei phwrs i rannu dros ugain punt i'w hen gymydogion tlodion bob tro y talai ymweliad â'r hen ardal. A'r tro diweddaf y bu gartref cafodd yr hyfrydwch anrhaethol o weled ei thad a'i mam, ei brodyr a'i chwiorydd, yn eistedd gyda hi wrth fwrdd y cymundeb mewn capel bychan a adeiladwyd yn y Ceunant, at yr hwn y rhoddodd ac y casglodd hanner cant o bunnau.

Pan fu farw ei mam, ysgrifennais i gyflwyno y newydd galarus iddi, a derbyniais yr atebiad canlynol oddiwrth ei meistres:—

BARCH. SYR,—

Danghosodd Catherine Hughes i mi eich llythyr car-edig a chydymdeinladol yn hysbysu iddi am farwolaeth ei mam. Y mae hanes oriau diweddaf yr hon a'i magodd —y cysuron nefol a brofodd yn y glyn, wedi profi braidd yn ormod i'w chyfansoddiad ddal. Y mae yn ddrwg iawn gennyf fy mod dan yr angenrheidrwydd i'ch hysbysu, fod sefyllfa ei hiechyd y fath, nad yw yn rhesymol iddi gymeryd taith mor bell ag yna ar y tymor hwn o'r flwyddyn. Yr ydym ni ar gychwyn i Rufain, ac yn penderfynu ei chymeryd gyda ni, er rhoddi iddi fantais hinsawdd tyner Itali. Yr wyf yn deall mai i chwi a'ch priod werthfawr y mae yn ddyledus am ei haddysg boreuol; ac nis gallaf ganiatau i'r cyfleusdra hwn fyned heibio heb roddi i chwi yr hysbysiad boddhaol na bu eich llafur hunanymwadol yn ofer. Y mae yn un o'r gweinidogion ffyddlonaf a gwerthfawrocaf a fu mewn teulu erioed, ac yr wyf yn credu fod ei ffyddlondeb fel gwasanaethyddes yn tarddu oddiar ei chydwybodolrwydd fel Cristion. Y mae yn cario ei chrefydd i'w holl gyflawniadau heb drwst na rhodres. Yr wyf yn cyflwyno i chwi y £10 mewnol fel diolch-offrwm i chwi am y cysur a gefais yn eich disgybl.

Yr oedd llythyr Catherine druan yn un o'r pethau mwyaf effeithiol a ddarlennais erioed. Dywedai,—

Y mae fy meist'r a'm meistres yn mawrhau eu caredigrwydd, am fy nghludo i Itali er mwyn i mi wella. Ond buasai yn well gennyf farw gartref. Mae'n debyg mai fy nyledswydd yw ymostwng i drefniadau meddygon. Ond!  
&c.

Yr oedd ei llythyr yn cynnwys £10 i'w thad at gostau claddedigaeth ei mam.—O Rufain y llythyr nesaf. Dyma gopi o hono,—

BARCH. SYR,—

Pan ysgrifenis atoch ddiweddaf, ychydig a dybiwn y byddai raid i mi mor fuan gymeryd fy ysgrifell i gyflwyno



i chwi y newydd gwir alarus fod ein rhagorol Catherine Hughes wedi ymadael a holl drafferthion y byd hwn. Bu farw wythnos i heddyw mewn gwir ddiogel obaith. Yr oedd ei meist'r a minnau a'n plant wrth ochr ei gwely pan oedd yn tynu ei hanadliadau olaf; a byth, byth, ni anghofiwn yr olygfa. Os gwelais y nefoedd ar y ddaear erioed, yno y gwelais hi. Y mae ei marwolaeth orfoleddus wedi effeithio yn rhyfeddol ar ddwy o'm merched, y rhai a ddygwyd mor ragluniaethol i weled y prawf hwn o wirionedd crefydd. Claddwyd hi yn ddiseremoni; oherwydd ni oddefa yr awdurdodau i ni gael gweinyddiad Protestanaidd wrth gladdu ein meirw, ac ni wnant hwythau weinyddu uwchben *heretic!* Ni chaniateir i ni godi bedd-adail iddi. Y cwbl a ganiateir yw gosod carreg ar ei phen a dwy lythyren arni, "C. H." Bu adeg ar fy oes pan y buaswn yn cyfrif seremoni gwag yn help i sicrhau iach-awdwriaeth, ond yr wyf heddyw yn teimlo yn wahanol. Darfu i ni fel teulu dyngeddu ein gilydd uwchben gwedd-illion marwol Catherine, na ddywedem air byth o ddiis-tyrrwch ar grefydd yr Anghydfurfwyr.

Y mae *Bank-book* Catherine a'i hewyllys ym meddiant ei meist'r, yr hwn a gyflwyna i'w theulu, drwy eich llaw chwi, tuag wyth cant o bunnau, &c.

Y mae adgofio bywyd a marwolaeth y chwaer ffyddlawn hon yn fy arwain i annerch dau ddosbarth.

Wasanaethyddion! byddwch ffyddlawn a gonest. Cyfrifwch yn ddyledswydd arnoch hysbysu pob anonestrwydd a thwyll a weloch yn eich cydwasanaethwyr. Plygwch i lais eich cydwybodau, a glynwch wrth eich crefydd ym mhob amgylchiad. "Dyrchafa di hi, a hi a'th ddyrchafa di."

Foneddigion! (ond ffolineb yw i mi ddis-gwyl y gwelant hwy hyn o sylw; ond pe cawn eu clust, dywedwn wrthynt), Edrychwch yn fanwl ar ol eich sefydliadau. Ymaith â'r wag dybiaeth na oddef urddas i foneddiges edrych i'r gegin, y *servants' hall*. y pantry, a'r seler. Y mae eich diofalwch chwi wedi temtio miloedd

o ieuentid i lwybrau anonstrwydd a thwyll.  
Yn wir, prin y gellwch feio eich gwasanaeth-  
yddion am eich twyllo, yr ydych yn gosod y  
brofedigaeth ger eu bron, ac nid yw yn rhyfedd  
fod cynifer o honoch yn myned yn fethdalwyr,  
oblegid y *servants' hall*, ac nid y *drawing room*,  
sydd yn dinistrio llawer o honoch.

### BEDD Y CRISTION.

BEDDARGRAFF MR. JOHN JONES, TYNEWYDD,  
GANLLWYD.

CRISTION o galon ddigel—oedd Ioan  
Trwy'i Dduw daeth yn uchel :  
Ffodd y sant, llawn ffydd a sel,  
Fry o'r ing i fro'r angel.

### JOHN.

Ni ddaw John eto'n ol atom,—ei Dduw  
Fynnai'i ddwyn oddiarnom ;  
Tewi raid dan y loes drom,  
A ffrwynaw'r cyffro ynnom.

Bu ef i ni'n fab ufudd—a'i addfed  
Gynheddfau'n ysblenydd ;  
Mawr oedd ef ym morau'i ddydd,  
A'i ddawn fel hen ddiwinydd.

### WILLIAM MARC.

UN fu'n gryf yn ei grefydd—addolwr  
Oedd William Marc beunydd ;  
Rhodiodd ef, ar hyd ei ddydd,  
Yn llaw Duw drwy'i holl dywydd.

Y MASNACHYDD GONEST.

CYWYDD COFFADWRIAETHOL AM MR. DAVID LLOYD,  
MASNACHYDD, TREMADOC.

DAFYDD LLWYD fwriwyd i'w fedd,  
Mor chwai y deuai'r diwedd!  
Tremadog! lle trwm ydyw—  
Y mae'r bedd yn trymhau'r byw.

Cofio Llwyd, y cyfaill llon,  
Ddigela aml brudd galon.  
Rhydd, geirwir, hawdd ei garu,  
O'i gryd drwy fywyd a fu;  
Llanc gonest, dillyn, cynnil,  
A'i lan foes fel un o fil.  
Cymydog serchog, a sant  
Oedd : a phwy mor ddiffuant?

I fyny heb dyrfu daeth—  
Heb ddilyn rhaib cribddeiliaeth—  
Heb dwyllo dan gysgod gwên—  
Heb bluo'n wyneb lawen—  
Heb air cras, na thwyll fasnach—  
Heb eisieu byw ar bwys bach—  
Heb ddeubris na buddwobrau—  
Heb ddichell i gymell gau—  
Yn ein plith heb rith na brol,  
Enillai'r wlad yn hollol.  
Yn ei lyfr bu'n lân ei law,  
Nid oedd raid iddo wridaw.  
Y llanc ieuanc a wywodd—  
O fyd drwg i'r nef y trodd.  
Ei lafur a'i sylw hefyd  
Roddai efe i'r ddau fyd.

Drwy ei sel bu'n glod i'r saint,  
 A chreai barch i'w riaint  
 Ei grefydd oedd grefydd gron,  
 Gwyliai ei foes a'i galon.  
 Y cn'w'llyn, nid plisgyn plaid,  
 Oedd rhan ei ddiwair enaid.  
 Hyd ei fedd dihoced fu,  
 Ba orchest oedd ei barchu?

I EDWARD HANDEL STEPHEN.

MAB Y PARCH. E. STEPHEN, TANYMARIAN.

O'r bychan hoewlon—pwy yw?  
 Edward Handel Stephen ydyw;  
 O'r tlws! pa le ceir tlysach  
 Perchen dawn na'r bochllawn bach?  
 Mi welaf y fam wiwlon  
 Yn nhroad y llygad llon;  
 Gwên ei dad sydd gan y del—  
 Mae'i lond o ddawn, mal Handel.

Dedwydd fo—doed y ddau fyd  
 Yn elw i'r anwylyd;  
 Doed i holl fraint didwyll fri,  
 Yn llawn dawn a daioni;  
 Parhaed cerdd ac ysbryd cân  
 Yn hir yn Nhanymarian.

## Y BYWYD-FAD.

TROWCH allan y BAD! Ewch, heriwch yr aig!  
 Mae llong yn prysuro i ddannedd y graig!  
 Rhwygwyd yr hwyliau, dyrysodd y llyw,  
 O, brysiwch! O, dygwch y morwyr yn fyw!

Cychwynnodd y BAD! Mae'n marchog y lli'!  
 Tarawodd y llong! A glywsoch y cri!  
 Mae'n suddo! mae'n suddo! pob gobaith a  
 ffodd.  
 Hi suddodd! hi suddodd! y dyfnder a'i todd.

Duw lwyddo y BAD! Mae'r dynion bob un  
 Wrth raffau yr hwylbren crynedig ynglŷn;  
 Mae gobaith diangfa yn chwyddo eu bron,  
 Ac angeu'n eu gwyllo yng nghysgod pob tonn!

O! brysied y BAD! Mae'r perygl yn fawr!  
 Pob tonn sydd yn fynydd, pob munud yn awr:  
 Mae'n nesu, mae'n nesu, drwy'r tonnau yn  
 hyf,  
 Mae angeu'n siomedig, a gobaith yn gryf.

Cyrhaeddodd y BAD, Wi! gwelaf bob gŵr  
 O'i fewn yn ddiogel uwch dinistr y dŵr:  
 Mae'n dyfod! mae'n dyfod! o'r enbyd fawr  
 hynt,  
 Gan chwerthin yn wyneb y tonnau a'r gwynt.

Dychwelodd y BAD. Cyrhaeddodd y lan!  
 Prysured tosturi i weini i'r gwan;  
 Dyrchafwn, dyrchafwn, ein mawlgerdd yn  
 llon  
 I Geidwad ein bywyd, ac Arglwydd y donn.

## Y BLODEUYN OLAF.


*Y rosemary*, a welai yr awdwr yn ei flodau ar ddydd  
Nadolig, pan oedd y ddaear wedi ei gorchuddio â llwydrew

I BLE, flodeuyn hardd,  
Yr aeth holl flodau'r ardd?  
Nid oes yr un a chwadd  
Ger bron;  
Mae anian oll yn brudd,  
A'r llwydrew ar ei grudd,  
A thithau'n unig sydd  
Yn llon.

Mi welaf yn dy wawr  
Ryw ddrych o olaf awr  
Y sant ar ado'r llawr  
I'r nef;  
Bydd pawb yr adeg hon  
Yn wylo ger ei fron,  
Ni bydd yr un yn llon  
Ond ef.

Mae gweld dy wenau di  
Yn dwyn ar gof i mi  
Y Gŵr fu ar Galfari,  
Fy Nuw;  
Pan gilio pawb mewn braw,  
Caf help ei gadarn law  
I'm dwyn i'r nefoedd draw  
I fyw.





CAPEL BACH Y CEUNANT.



## HARRI.

"Onid pentewyn ydyw hwn wedi ei achub o'r tân?"

**W**RTH adgofio "yr holl ffordd yr arweiniodd yr Arglwydd fi drwy'r anialwch," nis gallaf anghofio rhai dychweliadau hynod y bum yn dyst o honynt. Y mae agwedd grefyddol cynulleidfa, ar rai adegau, yn llenwi mynwes y gweinidog â digalondid—y crefyddwyr goreu yn afrywiog eu tymherau—y gweddiâu yn oerion a diafael—aelodau yr eglwys yn syrthio i bechodau a'r cenhedloedd yn gofyn, "Pa le y mae eu Duw hwy?" Yn y fath dymor, y mae llawer gweinidog wedi amheu ei godiad i'w swydd. Gofyn yn fynych iddo ei hunan beth fyddai oreu iddo wneuthur. A fyddai yn well iddo ymadael a rhoddi ei le i arall? Y mae sawyr y digalondid yn sicr o fod yn ei bregethau, er ceisio milwrio yn ei erbyn. Nid oes un testyn yn cydio yn ei feddwl ond profiadau isel saint yr Ysgrythyrau. Duw yn unig a wyr mor werthfawr ar adeg o'r fath yw gweled pentewyn yn cael ei gipio o'r tân.

Ers llawer blwyddyn yn ol yr oedd ein cynulleidfa wedi ymollwng—rhai o blant y diwygiad yn troi allan yn groes i'n gobeithion—anghydfod wedi codi rhwng teuluoedd â'u gilydd—a'r eglwys heb ychwanegiad dros fisoedd lawer; ond, drwy drugaredd, fe ddygwyd yn yr adeg isel honno dystiolaeth i nerth yr efigyl drwy achubiaeth hynod un o'r cymeriadau gwaethaf yn y wlad.

Ym mhentref bychan Cefn—, yr oedd dyn cryf o'r enw Harri yn byw, yr hwn oedd yn

ddiareb yng ngenau y wlad fel "y pennaf o bechaduriaid." Nid oedd nemawr bechod nad oedd yn euog o hono. Yr oedd yn herw-heliwr, yn feddwyn, ac yn ymladdwr. Yr oedd ei iaith yn ddychrynlyd, a chiliai pawb o'i ffordd. Yr oedd o dymherau creulawn; a chan nad oedd wedi cymeryd trafferth i ddisgyblu ei deimladau, cyfrifid ef yn fflangell ar yr ardal. Gwae oedd i'r hwn a wrthodai fwyd na diod na dim arall iddo ar goel, a dwbl wae oedd i'r hwn a feiddiai ofyn tâl iddo am ddim a gai. Yr oedd wedi priodi pan ddaethum yma i fyw, ac wedi hanner torri calon ei wraig, druan, yr hon oedd yn un o'r merched mwyaf diwyd, glanwedd, a medrus yn y wlad. Y mae yn syndod fel y mae dyhirod o ddynion yn gallu hudo merched o'r fath oreu i'w priodi. Y mae gan bob cymydogoeth engreiffiau galarus o hyn; pan y gwelir dynion da, diwyd, yn fynych yn cael eu rhwymo hyd angyu wrth greaduriaid afrywiog, diles, a diog. Barnem ni y buasai yn llawer gwell pe rhwymesid yr afrywiogion gyda'u gilydd, i ymladd allan eu brwydrau, tra y caffai pobl ddiwyd a rhinweddol fwynhau cymdeithas eu gilydd mewn tawelwch—hiliogaeth Cain, a hiliogaeth Seth, ar wahan; ond, fel arall yn fynych y gwelir pethau yn y byd annhrefnus hwn. Byddai gwraig Harri, druan, yn fynych o dan ei chlwylfau, er ei bod yn llafurio yn galed i gadw ei thy, a bwydo y diogyn meddw a ddylasai ei chynnal. Hi a ymollyngodd o'r diwedd dan bwys tlodi, erledigaeth, a digalondid, nes ymddieithrio o bob addoldy. Ni roddai efe gymaint o barch i'r Sabbath a newid ei wisg, pan fyddai ganddo ail wisg i'w rhoddi am

dano. Efe oedd y banerwr ym myddin uffern. Aeth rhai o'i gymydogion mor bell a dymuno iddo ddyfod i'r ddalfa, a chael ei alltudio i rywle.

Bu farw plentyn i Harri, a daeth ataf i ofyn a allasai gael lle ym mynwent y capel i'w gladdu. Yr oedd hynny o dynerwch ag oedd yn ei natur yn canolbwyntio yn y plentyn hwnnw, a danghosai gymaint o deimlad fel y parhaodd er syndod i bawb yn sobr o ddydd marwolaeth hyd ddydd claddedigaeth ei fachgen. Pan oeddwn yn annerch y gynulleidfa cyn cau y bedd, dywedais fod Duw wedi taro y parod er rhybudd i'r amharod. Ceisiais ddangos tynerwch Duw yn ei oruchwyliaethau, ac mor anhawdd oedd ganddo roddi pechadur i fyny. Yr oedd y pethau hyn yn bethau newydd iddo ef, druan. Yr oedd wedi clywed am Dduw yn gwahardd yr hyn yr oedd efe yn ei garu, ac yn cosbi troseddwy'r ei gyfraith; o ganlyniad, yr oedd yn gas ganddo yr Arglwydd, ac yr oedd yn credu fod Duw yn elyn iddo yntau. Ond ar adeg y claddedigaeth, daeth yr efengyl i gyffyrddiad â'i feddwl y tro cyntaf, a gwelwyd arwyddion amlwg ei fod dan ddylanwad ei deimlad, neu ei deimlad dan ddylanwad rhywbeth i raddau pell. Yr oedd y claddedigaeth ar ddydd Sadwrn, a daeth y teulu i'r capel bore y dydd canlynol; ac, er syndod i bawb, daethant yno yn yr hwyr. Sylwodd amryw o'n cyfeillion fod ffrwd o ddagrau ar bob grudd i Harri; ond ni dychymygasant fod yno ddim mwy na dagrau natur, yn tarddu o hiraeth am y marw. Yr oedd genym gyfarfod gweddi misol nos Lun, a daeth

Harri yno yn berffaith sobr! Yr oedd tipyn o sibrwd yn ei gylch erbyn hyn. Gobeithiai rhai y gallai fod rhyw ddifrifoldeb ynddo, ac y gallai droi allan yn rhywbeth. Nos Iau yr oedd un, sydd heddyw yn hen frawd doniol, yn dyfod heibio i ni yn wr ieuanc penddu. Pregethodd yn dda dros ben. Yr oedd ei lais mor nerthol ac ystwyth ag y gall pregethwr ddymuno i'w lais fod. Ond yr oedd y gynulleidfa yn galed. Gofynnai y pregethwr pa le yr oedd yr hen "fynd" oedd yn yr oedfaon? Holai am "amenau" cynnes y dyddiau gynt. Ond ychydig o fywyd oedd yn y lle. Ond, pan yn arwain y gynulleidfa yn y diwedd at "waed y taenelliad," gwaeddodd Harri allan,— "Diolch byth! mae gobaith i minnau!" a syrthiodd ar y llawr yn gelain farw, a gwefreiddiwyd y gynulleidfa drwyddi, a rhoes ail gychwyniad yn y gwefrsyll. Daeth Harri i'r gyfeillach. Yr oedd llawer o broffwydo ei dynged, ac o ragfynegu ei gwmp. Ond, er syndod i bawb, dal a wnaeth; ac yn fuan iawn symudodd ymaith bob amheuaeth oddiar feddwl yr ardal gyda golwg ar wirioneddolrwydd ei ddychweliad. Bu yn galed iawn arno wrth fyned drwodd; ond cafodd angorfa dawel, ddiogel i'w enaid. Efe a ddysgodd ddarllen yn lled fuan, ac yr oedd blas neillduol ar bob peth a ddywedai yn y gyfeillach. Daeth yn wr da, yn gymydog da, yn dad da, yn weithwr da; mewn gair, daeth yn grefyddwr da, ac y mae hynny yn cynnwys pob peth. Magodd dyaid o blant iachus, diwyd a llwyddiannus, y rhai a fuont yn gynhorthwy iddo pan ballodd ei nerth. Ymwared oddiwrt h yr Arglwydd oedd ei ddyfodiad i'n plith ar yr amser y trodd atom.

Adgyweiriwyd telyn llawer hen Gristion, a chwanegwyd amryw at rif yr eglwys.

Yr oedd tipyn o'r hen ddyn i'w ganfod ynddo ar brydiau pan gynhyrfid ei dymer. Digwyddodd un tro pan oedd Mr. — wedi dyfod i'r capel yn feddw. Yr oedd Mr. — yn un o'r rhai hynny na ddeuai byth i gapel pan fyddai yn sobr. Yr oedd ganddo biano yn y ty, a meirch teg i'w marchogaeth. Yr oedd crefydd yn rhy gaeth at ei chwaeth ef, ac nid oedd efe am ddarostwng ei hun drwy ymddangos mewn addoldy Ymneillduol. Ond pan y digwyddai ddychwelyd o'r dref o dan effeithiau diod, gwelais ef yn troi i mewn gyda'r dyrfa. Ymddygai weithiau yn lled dda, bryd arall ymddangosai fel un yn teimlo y gallai wneud fel y mynasai mewn capel. Yr wyf yn cofio un tro, pan oedd dau wr dieithr yn pregethu gyda ni, i'r gŵr hwnnw droi i mewn i'r oedfa ar ei ffordd o'r farchnad. Yr oedd wedi yfed dipyn yn drymach nag arferol, a dechreuodd siarad yn lled uchel nes aflonyddu y pregethwr. Erfyniai y rhai agosaf ato ar iddo dewi, ond waeth-waeth yr oedd yn myned. Anfonais Harri ato i erfyn arno naill ai i fod yn llonydd, neu i fyned allan. Wedi derbyn y genadwri, dechreuodd lefaru fel gŵr mawr. Codai ei lais yn uchel, a siaradai yn arddull crach-yswain yn dri chwarter meddw. "Os ydych yn myned i siarad yn y dull yna, Mr. —, rhaid i chwi fyned allan," ebai Harri. "Ple mae'r gŵr fedr fy nhroi i allan?" ebe yntau. Yr oedd hynny yn ormod i natur ein gwron ddal. Gafaelodd yn dynn yn ei ysgwydd—gwthiodd ef drwy ganol y bobl—drwy y drws—i'r awyr agored. Wedi ei gael

o swm y gynulleidfa, ysgydwedd ef yn lled haelionus, a rhoddes iddo brawf fod yr un nerth yng ngewynau y dyn ag oedd pan y crynafi ymladdwyr y wlad gan ei ofn. Un o'r dodrefn a yspeiliwyd oddiar y cryf arfog, ar ol ei rwymo, oedd y nerth hwnnw.

Yr oedd un linell brydferth iawn yng nghymeriad y dyn hwnnw, yn yr hyn yr oedd yn rhagori ar lawer o'r pentewynion. Y mae rhai o'r dosbarth hwnnw yn caru gwneud arddangosiad o honynt eu hunain—mynnant fod yn llewod pob cymdeithas. Ceir y rhai hyn yn son am eu hen orchestion gynt—eu hymladdfeydd, eu meddwod, a'u campau—gyda mwy o hyfrydwch na gweddeidd-dra. Ar y lleiaf o swm "calon ddrylliog" ac "ysbryd cystuddiedig." Ond ymddangosai Harri, druan, yn gwbl wahanol. Yr oedd son am yr "hen bethau" yn taenu cwmwl dros ei wynepryd. Dywed traddodiad y byddai Pedr yn torri i wylo bob tro y clywai geiliog yn canu, ar ol iddo gwmpo. Pa faint bynnag o wir sydd yn hynny, yr ydym yn sicr y byddai y brawd duwiol sydd yn awr dan ein sylw yn tristâu pan glywai son am feddwod ac ymladdau, yn neillduol pan glywai am benteulu yn greulon at ei wraig a'i blant. Y mae yn hyfrydwch i enaid fod yn dyst o'r fath waith effeithiol ar gyflwr un pechadur. Y mae gweled un pentewyn wedi ei achub o'r tân yn llawnach o ddyddordeb i gyfeillion y Gwaredwr na holl *exhibitions* y ddaear.

PA BETH A WNAF?

PA beth yw'r ofnau hyn  
Sy'n llenwi'm henaid syn  
A gwg fy Naf?  
Euogrwydd sy'n crynhoi,  
Mae'm cyfiawnderau'n ffoi,  
Ni welaf fan i droi,  
Pa beth a wnaf?

Mae'm beiau rif y gwllith  
Yn codi ym mhob rhith  
Drwy'm henaid claf,  
Dyrchafant oll eu llef,  
Fel ergyd taran gret,  
Am ddialeddau'r nef,  
Pa beth a wnaf?

Yn wyneb cyfraith Duw,  
'Rwy'n gweld na haeddwn fyw,  
Pa gymorth gaf?  
Ymrithio ger fy mron,  
Mae holl fendithion hon,  
Mae uffern dan fy mron,  
Pa beth a wnaf?

'Rwy'n gweld mai trengu raid,  
Os na chaf Iesu'n blaid  
I'm henaid claf;  
Yn rhinwedd aberth hwn,  
Cawn ysgafnhau fy mhwn,  
Yn awr, yn awr, mi wn  
Pa beth a wnaf.

## DIHANGFA'R ADERYN BACH.

*Er cof am Thomas Henry Thomas.*

AR doriad dydd yn Ebrill iach  
 Y gwelais dlws aderyn bach,  
     Mewn gwifrdy glân;  
 Ar gyfer eang goedwig werdd,  
 Lle clywid pob rhyw berchen cerdd  
     Yn seinio cân.

Llwyr giliai pob rhyw deimlad llon,  
 O'r galon fechan dan ei fron,  
     Gan hiraeth mawr  
 Am fynd i blith yr adar mwyn  
 I chwyddo cerdd y deiliog lwyn  
     I'r newydd wawr.

Pan oedd ei galon yn trymhau  
 Yn swn anthemau'n amlhau  
     Ar gangau'r gwydd,  
 Rhyw law garedig heibio ddaeth—  
 Agorai ddrws y gwifrdy caeth—  
     Aeth yntau'n rhydd.

Ysgydwai'i esgyll yn y gwawl,  
 A seiniai gerdd o felus fawl,  
     Yn llawen iawn;  
 Prysurai myrdd o adar mân  
 I'w gydgroesawu ef mewn cân,  
     I'w ryddid llawn.

Y gwifrdy bychan, anwyl yw,  
 Er mwyn yr un fu ynddo'n byw,  
     Sy heddyw'n rhydd;  
 Mewn parch y cedwir ef yn hir,  
 Dan wyladwriaeth gofal gwir,  
     Mewn cell yn gudd.







COED YR HAF.

“Coed gwyrddion, llon ar bob llaw,  
A'r dail yn curo'u dwylaw.”

## Y CEDYRN.\*

“PA FODD Y CWYMPPODD Y CEDYRN?”

## I.

A GWYMPPODD y cedyrn? Atebed y dagrau  
 Sy'n gwlychu aelwydydd ein trymllyd aneddau.  
 Do, cwmpodd y cedyrn fu'n ysgwyd y ddaear;  
 Agorwyd ffynhonnau cuddiedig o alar.  
 Mae Cymru anwylaf fel dyffryn Megido;  
 Colofnau'i gogoniant a welir yn cwmpo.

\*Y rhai gwmpodd yn 1852, sef Ieuan Gwynedd (32 oed),  
 Morgan Howells (53), Dafydd Rhys Stephan (45), Tegid (60).

[Ganwyd Evan Jones (*Ieuan Gwynedd*) ym Mryn Tynor-  
 iad, ar ochr Dolgellau i'r Garneddwen, yn sir Feirion-  
 nydd, yn 1820. Cafodd fam o fysg disgyblion Dr. George  
 Lewis, ac etifeddodd ei hynni cydwybodol ac anorchfygol.  
 O ysgol Marton aeth i Goleg Aberhonddu, ac oddiyno yn  
 weinidog i Dredegar. Collodd ei iechyd, a throdd at yr  
 ysgrifell. Golygodd y *Principality*, yr *Adolygydd*, a'r  
*Gymraes*. Bu'n farw yn 32 oed; huna yn y Groes Wen.

Ganwyd Morgan Howells yn 1794, ym mhlwy St. Nich-  
 olas, Morgannwg. Pan yn un ar bymtheg oed daeth yn  
 brentis saer i Gasnewydd. Daeth yn enwog fel pregethwr  
 oherwydd ei ddawn rhyfedd, a'i athrylith droiog wyllt.

Ganwyd David Rhys Stephen ym Merthyr yn 1807. Yn  
 1827 aeth i Goleg y Fenni, yn weinidog i Abertawe yn 1830,  
 yn weinidog Seisnig i Gasnewydd yn 1845. Priododd ferch  
 Gomer. Pregethai ac ysgrifennai'n rymus.

Un o blant y Bala oedd John Jones (*Tegid*), anwyd yn  
 1792. Yn Rhydychen trodd ei feddwl at Gymru, Lewis  
 Glyn Cothi, y Beibl Cymraeg, &c. Treuliodd ddiwedd ei  
 oes yn Nanhyfer, lle'r hun.

Cyhoeddwyd gan E. Williams a'i Mab, Aberystwyth, yn  
 1853.]

Mae llwythog ruddfannau drwy'r awyr yn  
gwibio,

Gan adrodd trist helynt y flwyddyn aeth heibio.

O flwyddyn gofiadwy ym mysg ein blynyddau,

Ei hanes a gerfiwyd ar fyrdd o galonnau!

Ei henw fydd bellach yn treiglo'n ddiareb

Am dymor o drallod, a dyfnder trychineb.

Ow gwympto y Cedyrn fu'n addurn i Gymru,

Nes swyno estroniaid i'w gweled a'i charu!

Athroniaeth a rhinwedd, gwladgarwch a chre-  
fydd,

A welir yn wyllo ar yddfau eu gilydd.

Mae iasau trydanol drwy'r Gogledd a'r Deau,

A myrdd o blant llafur yn wlybion eu grudd-  
iau.

Nid ydyw gogoniant ein gwylltion fynyddoedd,

Ein grisial afonydd, na'n gwyrddion goedwig-  
oedd,

Yn ddigon i symud y baich o ofidiau,

Na swyno i anghof ein trymion drallodau.

Pob amharch i'r bardd a groesawo ffug alar

Yn agos i feddau enwogion mor hawddgar.

Fy awen sy'n ysgwyd fel corsen wywedig,

O dan ysbrydoliaeth teimladau rhwygedig.

Ni raid i mi annog y cyndyn deimladau,

Na cheisio cynhorthwy y gwllith na'r cymylau;

Maddeua y nefoedd, maddeued y ddaear,

Os gwlychir f' ysgrifell mewn dagrau o alar :

Cysegrwyd gwir dristwch gan Dduw yn ein  
natur,

Pan wylai y Crewr wrth fedd ei greadur!

Mae rhagor rhwng seren a seren mewn mawr-  
edd,

Er hynny pob seren sy'n gwisgo gogonedd;

Ac os oedd amrywiaeth ym mys y gwyr hyglo  
 Mewn oed a sefyllfa, mewn dysg a theilyngdod,  
 Mae calon y genedl yn llawn o ysgogiad  
 I wisgo eu beddau â phroffion o gariad.

Yr arwr brwdfrydig, ym mhoethder ieuencyd—  
 Yr athraw parchedig, yn hwyrddydd ei fywyd—  
 Dau bleidiwr diysgog ein iaith a'n defodau,  
 Yng nghanol plant estron a'u coethion ddyg-  
 iadau.

Y pedwar oedd gynneu yn llawn o fywiog-  
 rwydd,

Sy heddyw yn huno ym mynwes distawrwydd;  
 A'r awen sy'n nesu, yn enw'r D'wysogaeth,  
 I dalu y deyrnged i'w pur goffadwriaeth.

## II. IEUAN GWYNEDD.

Pwy draetha fy hiraeth am Ieuan anwylaf?

Mae adsain ei enw yn chwyddo fy mron;  
 Rhyw hafaidd belydryn yng nghanol y gaeaf  
 Yw'r funud 'rwy'n ceisio ymddangos yn llon:  
 Mi wn beth yw wylo wrth feddau cyfeillion,  
 Nid dieithr i'm mynwes yw trymion bang-  
 feydd;

Ond archoll sydd heddyw yn gwaedu fy  
 nghalon,

Sy'n archoll i'm cenedl drwy'i holl breswyl-  
 feydd.

Os codir cofebau i feibion gwroldeb,

Os plethir mawl-gerddi i ddynion di-nod,  
 Mae plentyn athrylith yn haeddu galareb,  
 Mae didwyll wladgarwr yn deilwng o glod:  
 O Dduw! ti a ddysgaist i'r blodau gydwylo.  
 Pan gleddir mewn t'w'llwch yr huan eu tad;

Dod gymorth i minnau roi teyrnged i'r Cymro  
Fu'n addurn i'w genedl—fu'n fendith i'w  
wlad

Y ddaiar sy'n falch o brydferthwch y rhosyn,  
Sy'n swyno ein llygad heb wybod paham;  
Goddeter i Feirion ymfrostio o'i phlentyn,  
Roes fythol enwogrwydd i Feirion ei fam:  
Bu'n magu rhyfelwyr i noddi ei hawliau,  
A'u dwylaw cyhyrog mewn bwa a chledd;  
Ond vsgrif un IEUAN oedd well na chleddyfau,  
I bleidio gwir ryddid, ac ennill gwir hedd.

Yn adsain rhaeadrau yr Iddon a'r Wnion,  
Sy'n golchi clogwyni daneddog a serth,  
Mae ardal y Brithdir sy'n hawlio y goron  
Am roddi i Gymru'r fath drysor o werth:  
Yn swm y ceunentydd deffrowyd talentau,  
Na roed eu rhagorach ar allor ein Duw;  
Ychydig fel Ieuan a gwympodd gan angau,  
A llai o'i gyffelyb adawodd yn fyw.

Mân wersi yr aelwyd fu'n ffurfio'i alluoedd,  
Yng nghanol gweddiau dechreuodd ei oes;  
Ei fam batriarchaidd, ar drothwy y nefoedd,  
Fu'n gwisgo ei phlentyn i ryfel y groes:  
Os tyngwyd Hannibal wrth allor Paganiaeth,  
I fythol elyniaeth at Rufain a'i chledd;  
Tyngedwyd ein Ieuan wrth allor Crist'nogaeth,  
I ymladd â phechod o'i febyd i'w fedd.

Cychwynnodd ei yrfa heb noddwr na chyfaill,  
Y rhwystrau bygythiol a chwalodd bob un;  
Y dydd y cyfrannai wybodaeth i eraill,  
Y nos y diwylliai ei feddwl ei hun:

Darlennem yn llygad y bachgen awyddus  
 Arwyddion o fawredd dilynol ei oes;  
 Addawem hir ddyddiau i'w ysbryd llafurus,  
 Ond gobaith ar edyn marwolaeth a ffoes!

Ym Marton, Llanuwchllyn, a thref Aberhon-  
 ddu,

Bu'n yfed o ffynnon gwybodaeth a dysg;  
 Ei gydysgoleigion talentog o'i ddeutu  
 A'i llawen gyfrifent y mwya'n eu mysg:  
 O bob gwir fyfyrwr gwnaeth gyfaill diffuant,  
 Gwnaeth hanner gelynion o'r diog a'r ffol;  
 Rhai, gwddag ef heddyw, sy'n nheyrnas gogon-  
 iant,  
 A mwy a adawodd mewn hiraeth ar ol.

Prysuroidd i'r cysegr drwy lysoedd dysgeid-  
 iaeth,

Ymaffodd yn santaidd wasanaeth ei swydd;  
 Dysgeidiaeth a natur oedd gwraidd ei athron-  
 iaeth,

A gras a'i cymhwysodd i'w lafur a'i lwydd:  
 Yn Saron, Tredegar, y diwyd lafuriai,  
 Heb lethu un rhinwedd, nac arbed un bai;  
 Y llyfrgell a'r nefoedd oedd yn ei bregethau,  
 A'i gylchoedd mor gyson a llanw a thrai.

Ei ddiball ymroddiad a fagodd y gelyn

A'i lladdai yn araf, dan wenu yn llon;  
 Y bluen a dyfodd yn aden yr eryr,  
 Roes asgell i'r saeth a drywanodd ei fron:  
 Rhy wan oedd ei babell i'r enaid mawreddog,  
 A grym ei athrylith a wywai ei wedd;  
 Bu raid i'w gorff deimlo ei feddwl gorfiniog,  
 Fel wain yn ymagor gan lymder y cledd.

Fe dorwyd llinynau tyneraf ei galon,  
 Dilynodd ei briod a'i baban i'r bedd;  
 Ond collwyd y dyn yng ngwroldeb y Cristion,  
 A'r hyn a bregethai a wiriai ei wedd :  
 Nid stoicaidd athroniaeth fu'n sychu ei ddaur-  
 au,  
 Nid calon ddideimlad oedd calon ein brawd ;  
 Ond ysbryd plygedig i'r Dwyfol drefniadau  
 Gysgodai wendidau cynhennid y cnawd.

Ei nychdod cynhyddol a groesai'i gynlluniau,  
 Ei fwriad a ddryswyd, er cymaint ei aidd ;  
 A gwelwyd, er galar, fod mynych wendidau  
 I dorri'r cysylltiad rhwng bugail a phraidd :  
 Os lluddiwyd i'n gwron gael sefyll yn gyhoedd,  
 I synnu tyrfaoedd â ffrydlif ei ddawn,  
 Darparwyd cylch arall i'w fawrion alluoedd,  
 I weini'i genedlaeth yn oriau'i brydnawn.

Y Crewr anfeidrol fu'n dweyd " Ysgrifenna "  
 Wrth Ioan yn Patnos, am air Duw yn gaeth,  
 Anadlodd ar ysbryd ein Ieuan hawddgara',  
 Gan ddweyd " Ysgrifenna,"—ac felly y  
 gwnaeth :  
 Ei ufydd ysgrifell dderbyniai'r genhadaeth,  
 Ymroddodd i'r gorchwyl hyd derfyn y daith ;  
 A chlywai'm dychymyg, ar awr ei farwolaeth,  
 Ei Dduw yn dywedyd, " Gorfennaist y  
 gwaith."

Bu'n ymladd ein brwydrau ar faes "Y D'wys-  
 ogaeth,"  
 Ail fywyd yn rhinwedd a rhyddid a roes ;  
 A phrofwyd eiddigedd ffug-fawrion y dalaeth,  
 Wrth weled bachgenyn yn arwain yr oes!



Ei nerth a'i wroldeb a'i nodent yn addas  
 I ddal "Baner Rhyddid," a'i chwifo'n ein  
 mysg;  
 Gwrth'nebai'r gormeswyr sy'n bwyta y deyrnas,  
 Sef diffyg cynhildeb, a sobrwydd, a dysg.

Pan wibiai'r Ysbiwyr drwy Gymru heddychlon,  
 I guddio rhinweddau cyfoethog a thlawd,  
 Enynnwyd gwladgarwch angerddol ein gwron,  
 A'u ffug "Adroddiadau" a fwriodd i wawd:  
 Os collodd ei olwg ar rai o'n mân frychau,  
 Ym mawredd ei gariad a phoethder ei sel,  
 Mae calon dyngarwch yn maddeu'i wendidau,  
 A llygad y genedl yn rhinwedd a'u gwel.

Ei nerth a'i gadawodd! a'r "Faner" fuddugol  
 I ddwyllaw gwyr ereill ollyngodd yn brudd;  
 Disgynnodd o'i law yr ysgrifell drydanol,—  
 Dychwelodd i'w henwlad o ferw Caerludd:  
 Cyfeiriodd i Gymru o fangre estroniaeth,  
 Fel "Tad y ffyddloniaid," heb wybod i b'le;  
 Ei unig arweinydd oedd Dwyfol Ragluniaeth,  
 A theimlai ei gartref yn nodded y ne'.

Y Duw sy'n gofalu am rilyn awr-hoedlog,  
 Ddarparodd i Ieuan gynorthwy yn hawdd;  
 Agorodd dosturi'n "Gwenynen" oludog,\*  
 A'r llenor adfydus gadd gysgod ei nawdd:  
 Adfywiodd ei ysbryd—ymroes i'r anturiaeth  
 Roes iddo orseddfainc yn serch *Y Gymraes*;  
 Tra perchir cymeriad rhwng bryniau'n T'wys-  
 ogaeth,  
 Bydd arogl ei enw fel arogl y maes.

---

\*Gwenynen Gwent, Lady Llanover (1802—1896).

Ymroddai'n ddiorffwys mewn llafur anhafal,  
 Cyflawnodd orchestion—bwriadodd fil mwy;  
 Pa Gymro gyflawnodd orchestion cyfartal,  
 Cyn croesi terfyngylch tri dengmlwydd a  
 dwy?

Ei enw a bery mewn parch dan bob cronglwyd,  
 Tafodau babanod a'i bloesgant yn llon;  
 Ei deg ddarllenyddion siriolant bob aelwyd,  
 A mamau'r oes nesaf fydd plant yr oes hon.

Y coegddyn a ddywed,—“ Rhy lem oedd ei  
 'sgrifell,

Rhy finiog, ysgatfydd, ei ddoniau trahaus :”  
 Bradychwyr fu'n gwaedu dan bwysau ei fflangell,

Ymyrwy'r peryglus a boenai'n barhaus;  
 At bob rhyw ymhoiad, a gwelw fursendod,  
 Ei enaid o berffaith gasineb oedd lawn;  
 Tosturiai wrth wendid, a pharchai deilyngdod,—

Nid nychlyd genfigen fu'n minio ei ddawn.

Chwi ufydd wenieithwyr—chwi ysgrifenyddion,  
 Sy'n barod i bopeth am elw a bri,  
 Ystyriwch y perffaith, a chofiwch yr union,  
 Fu'n meddu tawelwch sy'n ddieithr i chwi :  
 Na wrided ei geraint, ni fedrai fradychu,—  
 Ei goron ddihalog sy'n deilwng bob darn;  
 Trengasai o newyn ar drothwy tosturi,  
 Cyn gwerthu ei dalent i erlid ei farn.

Cenfigen a feia y llenor sy'n poeni,  
 Gan dreulio'i holl gyfoeth, i weini ei wlad;  
 Pob gwarth i'r genedlaeth was'naetha hyd  
 dlodi,

Pob clod i'r athrylith sy'n ceisio'i lleshad :

Na feier ein Ieuan am uchel anturiaeth,  
 Os methodd a gweithio pob cynllun ymlaen;  
 Ond gwrieded pob Cymro fu'n atal cefnogaeth,—  
 Ni ddichon beddgolofn byth guddio y staen.

Pa le y canfuwyd y fath ragoriaethau,  
 O dan yr un gronglwyd yn trigo'n gytun?  
 Ni segur ymyrrai â phob amrywiaethau,  
 Heb gyrraedd enwogrwydd hynodol mewn  
 un :

Oedd lenor a bardd ym mysg beirdd a llenorion,  
 Duwinydd ym mysg duwinyddion ei oes,  
 Ysgolhaig, a hanesydd, a gwladgarwr ffydd-  
 lon,  
 Diwygiwr ei genedl mewn meddwl a moes.

Yr awen a garai, a hi a'i coffleidiai,  
 Eneinio ein Ieuan yn fore a wnaeth;  
 Creawdwr y seraff roes ynddo'r elfennau,  
 Dysgeidiaeth a phrofiad a goethent ei  
 chwaeth :

O na chawsai'i arbed i gyrraedd addfedrwydd,  
 I'w restru yn brif-fardd mewn urddas a  
 gradd!

Cyrhaeddodd yn uchel ar binacl enwogrwydd,  
 A chyfiawn deilyngai'r gogoniant a gadd.

I'r "Ymgyrch Normanaidd" tywalltai ei  
 enaid,

"Doethineb y Crewr" fu'n ennyn ei ddawn;  
 Yn ei "Awdl i Heddwch," a'r ddau "Adgyf-  
 odiad,"

Llinellau anfarwol yn fynych a gawn :  
 Ei awen fu'n wyllo ar feddau enwogion,  
 Eneiniodd eu henwau mewn bythol goffhad;  
 A medodd gynhaeaf o uchel wobrwyon,—  
 Anadlodd ail fywyd yn awen ei wlad.

Ei adwaen yn unig oedd eisieu i'w hoffi,  
 Caethiwai bob tafod i addef ei werth;  
 Ymdeimlem yn ddiogel heb arf yn ei gwmmi,—  
 Rhyfeddem ei symledd, a theimlem ei nerth:  
 Nid chwareu gonestrwydd cyhoeddus wnai  
 Ieuan,  
 Ac agor ei fynwes yn ddirgel i frâd;  
 Nid ennill cyfeillion fu iddo'n brif amcan,  
 Ond codi cymeriad ei genedl a'i wlad.

O'i bur gyfeillgarwch rhoes filoedd o brofion,  
 Fel puraur dihalog y daliai bob pair;  
 Tywalltwn i'w fynwes ddirgeloedd fy nghalon,  
 Gwystlaswn fy mywyd ar wiredd ei air:  
 Wrth gofio'i gyfeillach 'rwy'n teimlo rhyw  
 awydd  
 Cael diosg marwoldeb i uno âg ef,  
 I yfed o ffynnon anfarwol lawenydd,  
 A dechreu cyfeillach yng ngwynfyd y nef.

Bu'n hir yn dihoeni rhwng einioes ac angau,  
 A thrymion ofalon yn curio ei wedd;  
 Ond grym ei athrylith a'i fawrion dalantau  
 Fu'n taenu sirioldeb ar drothwy y bedd;  
 Fel Etna losgfalus yn nyfnder y gaeaf,  
 A'i odre mewn llwydrew ac eira dan glo,  
 A'i gopa yn arllwys y fflamau disgleiriaf,  
 Gan daenu goleuni dros wyneb y fro.

Nid "misoedd oferedd" oedd misoedd ei  
 gystudd,  
 Llafuriodd tra daliodd y peiriant i droi;  
 Tywalltai gynhyrchion ei feddwl ysplenydd,  
 Pan wisgai v bywyd ei edyn i ffoi!  
 Fy nhrywyllt ddychymyg sy'n gweld yr ystafell  
 Lle bu yn mantoli rhwng nefoedd a llawr,

Fy nghalon sy'n twymno wrth deimlo'r ysgrifell  
Fu'n ywallt melldithion ar Babilon Fawr.

Ond nid ei athrylith yn unig lewyrchai  
Drwy'r cwmwl a welid am dano'n ymgau;  
Profiadau y Cristion o'i wefus ddyferai,  
Ac enaint y nefoedd oedd arno'n parhau:  
Meithrinai ufudd-dod i'r Dwyfol Reolwr,  
Heb rwgnach na chwyno dan lymder ei loes;  
Amheuaeth a foddai yng ngwaed y Cyfryngwr,  
A'i enaid orweddaï ar haeddiant y groes.

Ei weled oedd gryfach na mil o draethodau  
I droi yr anfyddiwr, heb deimlad o drais;  
Ymadrodd yn gruddfan dan faich o feddyliau,  
A'r llygaid yn llenwi diffygion y llais:  
Yng nghanol gwendidau ymlonnai ei enaid,  
Fel hafddydd mewn blodau sychedig a llwfr;  
'Roedd delw y nefoedd yng ngloewder ei lygaid,  
Fel delw yr haul mewn dyferyn o ddwfr.

Fe welir diweddiad ar bob rhyw berffeith-  
rwydd!

A dydd Ieuan Gwynedd ddirwynodd i ben;  
Anadlodd ei ysbryd i ofal ei Arglwydd,  
Gorch'mynodd ei babell i gladdfa'r Groes  
Wen:

Crechwenai ellyllon creulondeb a gormes,  
Pan welwyd marwolaeth yn rhwymo y llaw  
Fu'n saethu y bolltau dychrynllwyd i'w mynwes,  
Fu'n cloi eu cynddaredd mewn gwewyr a  
braw.

Gorffennodd ei lafur—darfyddodd ei drallod—  
Diflannodd o'n golwg—disgynnodd y llen!

Ym mysg yr enwogion mae dinas ei feddrod,  
 Marwolion anfarwol sy'n mynwent Groes  
 Wen :

Bydd camrau crynedig galarus ymwelwyr  
 Yn torri'r distawrwydd o amgylch ei fedd,  
 Bydd distaw gawodydd o ddaagrau ei frodyr  
 Yn cadw'r dywarchen yn wyrddlas ei gwedd.

Y dydd y dilynem ei babell i'r ddaear—  
 Y gwelem roi Ieuan hawddgaraf dan glo,  
 Y gwanwyn a ruthrai dan chwerthin o'i garchar,  
 Gan yrru byddinoedd y gaef ar ffo :  
 Derbynem yr awgrym — adfywiodd ein  
 gobaith—

Dychlamai y galon, newidiai y wedd ;  
 Daw Gwanwyn i ddilyn hir aeaf marwolaeth,  
 Daw dydd prynedigaeth i agor y bedd.

### III. MORGAN HOWELLS.

TYRD, awen drist, o dan dy finiog loes,  
 At fedd un arall o brif wyr ein hoes :  
 Nid llenor gwych yn trin ysgrifell gref,  
 Nid ieithydd dwfn, na medrus fardd oedd ef ;  
 Ond cennad hedd,—a neges fawr ei oes  
 Oedd dwyn yr euog at rinweddau'r groes.

O MORGAN HOWEL, y parchedig dad,  
 Sy heddyw'n destyn prudd i feirdd fy ngwlad,  
 Y gwr a wnaeth i fyrdd ei serchu ef,  
 Fel dyn a chyfaill, ac fel gwas y nef.  
 Pa ryfedd yw os oes rhyw brudd-der syn  
 Yng ngwersyll Israel yn y dyddiau hyn?  
 Ai rhyfedd yw os yw Philistia'n llon,  
 Ac adsain cân yn Gath ac Ascelon?

Fe gollwyd Morgan fawr o'r uchelfeydd;  
 Ei enw gynt fu'n llonni'n preswylfeydd,  
 Er dysgu dweyd "Ein Tad sydd wrth y llyw,"  
 Mae'r cnawd yn wan, a'r teimlad oll yn fyw.

Mewn teulu tlawd yng ngwlad Morgannwg  
 glyd,  
 Heb urdd gwaedoliaeth na gwychderau'r byd,  
 Y llonwyd mam, pan wasgai at ei bron  
 Ryfeddaf wrthddrych yr alareb hon.  
 Ni fagwyd Morgan i segurddod gwan,  
 Ond llafur caled oedd ei ddyddiol ran:  
 Ei ddogneau mân a draethai'n fanwl iawn,  
 I brynnu dysg, a chasglu llyfrgell lawn.  
 Yng nghwmni'r llif a'r fwyell gweithiai'n llon,  
 Heb ofal bydol i derfysgu'i fron;  
 I blith ei lyfrau ymollyngai'n rhydd,  
 I gasglu addysg, wedi gwaith y dydd.

Pan rodiai'n Harglwydd ar drugarog hynt  
 Ym mysg pysgotwyr Galilea gynt,  
 Canfyddai frodyr wrth eu dyddiol waith,  
 Yn trin eu rhwydau ger y morlyn maith;  
 "Dewch ar fy ol," medd Crist, ac ufuddhaent,  
 Gan adael popeth, ar ei ol yr aent.  
 Daeth heibio i Morgan, galw arno wnaeth,  
 "Tyrd ar fy ol," ac ar ei ol yr aeth;  
 A'i hyfryd orchwyl dros flynyddau maith  
 Oedd moli'r gras a'i cododd at ei waith.

Ym mlodau'i oes bu'n gorfod dwyn ei bwn,  
 Ymdd'rysu'm mysg negesau'r bywyd hwn;  
 Er bod ym myddin Crist yn enwog un,  
 Bu'n gorfod ymladd ar ei draul ei hun!  
 O Seion Duw, ple mae dy santaidd lid?  
 O anghyfiawnder, pa le mae dy wrid?

Ond ni roes heibio ei ymdrechion maith,  
 I aros nes cyflawnai pawb eu gwaith.  
 Os etyl rhai sy'n gwisgo enw Crist  
 Eu "pethau cnawdol" rhag ei weision trist,  
 Ni saif y gwaith! mae gar eu Harglwydd  
 glân

Drwy'u hesgyrn oll yn llosgi megis tân;  
 Er gorfod ymbriodi hyd y bedd  
 A chyfyngderau a thrallodus wedd,  
 Eu teimlad yw,—“Ymrodded plant y byd  
 I gasglu cyfoeth a gwneud nythau clyd,  
 Ein hawydd ni yw cael cydwybod bur,  
 I fyw a marw heb gondemniol gur;  
 Heb gennym ddim i'w adael rhwng y byw,  
 Ond enw da, ac addewidion Duw.  
 Nid aur nac arian, na llygredig fri,  
 Sy'n ffurfio'r goron a ddisgwyliwn ni;  
 Y dydd sy'n dod a hollol wastadha  
 Bob amryfusedd, a'i esbonio wna:  
 Ein gwobr a'n barn sy'n llaw y Duw a ddwed,  
 'A hauo'n brin, yn brin, yn brin y méd.' ”

O Morgan Howel! Pwy o dan y nef  
 Rydd arlun cywir o'i hynodion ef?  
 Rhyw eithriad oedd i bawb o'n dynol ryw;  
 Os bu ei fath, ni cheir ei fath yn fyw.  
 Eithafion pell a gwrddent ynddo'n nghyd,  
 Cymysgedd rhyfedd, yn gorsynnu'r byd,  
 O fawredd bychan a bychander mawr,  
 O symledd plentyn a gwroldeb cawr.  
 Pe buasai pawb ym mhob peth fel efe.  
 Pa ryfedd ddrych a welsid is y ne'!  
 Pwy garai fyw mewn gwlad lle bo pob un  
 Yn Forgan Howel ond efe ei hun?  
 Dychmygem weithiau'i weld fel angel glân,  
 A'i eiriau'n wreichion byw o'r nefol dân;



Ac yn y fan caem holl wendidau dyn  
Yn cydgyfarfod ynddo ef ei hun.

Yr oedd hynodrwydd ei feddyliau llawn  
Yn ffurfio dullwedd ei ddieithriol ddawn.  
Ni ddywaredai ddyn o dan y nef,  
A gwae y dyn a'i dynwaredo ef.  
Oferedd oedd ei roi dan ddeddf yr iaith,  
Na ffurfiau rheitheg na rhesymeg chwaith.  
Pwy feiddia ffrwyno'r fellten ar ei hynt,  
Neu dorri ffordd i symudiadau'r gwynt?  
Nid oedd ei ddawn fel dof ddestlusrwydd  
gardd,

Ond megis coedwig mewn gwylltineb hardd.  
Ni feddai dlysni yr afonig lefn,  
Ond ardderchawgrwydd rhaeadr gwyllt di-  
drefn.

Nid oedd ei lewyrch yn oleuni oer,  
Heb wres na bywyd, fel goleuni'r lloer;  
Ond fel yr haul, yn rhoddi gwawl a gwres,  
Yn rhoi boddhad, ac yn cynhyrchu lles;  
Wrth synnu'r byd, a gwneud y saint yn llon,  
Goleuai'r deall a chynhesai'r fron.  
Cyfrifem un o'i ddrychfeddyliau glwys  
Yn werth myfyrdod maith a llafur dwys.

Anwastad oedd mewn tymer, hwyl, a dawn,  
Fe'i caed ar brydiau yn amrywiol iawn;  
Prin y disgwyliem weled y fath un,  
Heb fod yn uwch neu'n is nag ef ei hun.  
Pe daethai rhyw ddieithryn ar ei dro  
I ambell odfa gofir yn ein bro,  
A gweled Morgan Howel mawr ei fri  
Yn rhwyfo'n drwm yn erbyn gwynt a lli,  
Tybiasai fod yr holl dorfeydd yn ffol  
Yn duo'r wlad wrth gyrchu ar ei ol;

A gofynasai,—“ Pa gyfaredd sy'n  
Cyfodi'r wlad i wrando ar y dyn?”  
Pe daethai eilwaith ar ffodusach hynt,  
A'i weld a'i hwyl yn llawn o nefol wynt,  
Tybiasai'i fod yn angel yn y cawd,  
Yn dwyn trysorau'r nef i fyd tylawd.

Nid dynol farnau a'i harweiniodd ef,  
Bu'n ffurfio'i farn yn wyneb gair y nef.  
Yr hyn a gredai, a gyhoeddai'n hyf;  
Yr hyn na chredai, a gondemniai'n gryf.  
Dychmygai weld ei ffordd ei hun yn glir,  
Drwy dybiau'r byd, i deml y Dwyfol wir;  
A theimlai fod angenrhaid arno ef  
I gadw'n iach hen athrawiaethau'r nef.

Rhyw brudd ddifyrrwch yw adgofio'i ddull,  
A'i law yng ngwddf rhyw gyfeiliornad hyll:  
Puseyaeth, Princeaeth, a phob heintus “ aeth,”  
Fu'n nod gwastadol i'w bwyntiedig saeth;  
Ar lawer wyneb y bu'n gosod gwên,  
Ar draul rhyw wyllt-dyb newydd grai neu hen;  
Dychmygion Plymouth, a holl wyrthiau'r  
“ Saint,”

Fineyaeth hefyd, driniau megis haint.  
Nid ysbryd plaid a roddai iddo rym  
I drin “ yr oes ” mewn ymadroddion llym;  
Ni fynnwn daflu dirmyg ar ei fedd,  
Drwy ddweyd mai rhagfarn a fu'n minio'i  
gledd.

Cyfodai lifddor ei ryfeddol ddawn,  
A rhedai allan ffrydiau nerthol iawn;  
Mynd, mynd a wnai, heb wybod i ba le,  
Fel pluen wan o flaen yr awel gre.  
Ai rhyfedd yw os llithrodd y fath un,  
Yn ddiarwybod iddo ef ei hun,

Ar draws y ddeddf roes Duw ym mysge ei blant,  
 Nes oeri serch a chlwyfo ambell sant,  
 A gwneud ei hun i lawer saeth yn nod,  
 Nes temtio enllib i yspeilio'i glod?  
 Bu'n talu'n ddrud mewn edifeirwch blin.  
 Am ambell air a lithrodd dros ei fin.  
 Maddeuodd Duw; ai gormod yw i ni  
 Anghofio'r brychau oedd ar haul ei fri?

Ar edyn cof rhof dro i'r "uchel wyl,"  
 Lle gwelid Morgan yn ei oreu hwyl,  
 Ym mysge yr enwog wyr gaed yno 'nghyd,  
 O'r De a'r Gogledd—doniau goreu'r byd.  
 Cyfodai Morgan! Llawenhai pob gwedd,—  
 Clustfeiniau'r dorf, yn ddistaw fel y bedd;  
 Prin meiddiai'r galon guro dan y fron,  
 Dan swyn distawrwydd yr olygfa hon!  
 Ymdeimlai fod y dyrfa yn ei law;  
 Ymdeimlai hefyd fod ei Dduw gerllaw.  
 Anghofiem bawb yn swm ei eiriau per;  
 Fel codiad haul yn cuddio myrdd o ser.  
 Meddyliau ar feddyliau, bron heb rif,  
 Dywalltai allan yn ufelawg lif;  
 Dyrchafai'i lais! Dych'mygem deimlo'r llawr  
 Yn anesmwytho dan y dyrfa fawr!  
 Y fenyw lân anghofiai'i thegwch glwys—  
 Anghofio'i olud wna'i'r bydolddyn dwys;  
 Ymwasgai'r dorf mewn cryndod at ei draed,  
 Fel yn dyheu am glywed am y gwaed.  
 Cyfodai'i law! a bu distawrwydd syn,—  
 Symudai'i safle i Galfaria fryn;  
 Agorai goffrau hen drugaredd rad,  
 I blant afradlon pell o dŷ eu Tad:  
 Cyffroai'r dorf, a sain gorfoledd mwyn,  
 A synnai'r adar yng nghanghennau'r llwyn.

Ym msg y dorf a wleddai ar ei ddawn  
 Y safai bardd, a'i fynwes frwd yn llawn;  
 Ar ol yr odfa ymneillduai'n syn,  
 A'i galon lawn waghai ei hun fel hyn:—

“ Morgan Howel, Morgan Howel,  
 Mawl i Dduw am danat ti!  
 Y parchedig dad yn Israel,  
 Na fachluded haul dy fri!  
 Dymuniadau goreu'r ddaear,  
 A bendithion goreu'r ne,  
 Sy'n dy ddilyn, athraw hawddgar,  
 Sy'n dy ddisgwyl ym mhob lle.

“ Mae rhyw lu o ragoriaethau  
 Yn dy ddoniau di yn cwrdd;  
 Caiff y plentyn a'r athronydd  
 Eu diwallu wrth dy fwrdd:  
 Drychfeddyliau yn melltennu,  
 Yn aneirif ger ein bron;  
 Gallai angel genfigennu  
 Wrth y wir athrylith hon.

“ Herr i Gabriel, herr i Uriel,  
 Herr i'r angel ucha'i sain,  
 Ddweyd yn well na Morgan Howel  
 Am y groes a'r goron ddrain!  
 I Galfaria mae'n cyfeirio,  
 Yno traetha gyda blas;  
 Gwnaed ei enaid mawr i nofio  
 Yn nyfnderoedd moroedd gras.

“ Gwelir rhai o'n duwinyddion  
 Yn ymboeni drwy eu hoes,  
 Dringo bryn yr egwyddorion  
 Sydd yn cwrdd yn angau'r groes;

Tra y byddont hwy'n anniben  
 Yn ymlwybro tua'r nen,  
 Disgyn wna athrylith Morgan  
 Fel yr eryr ar ei ben.

- “ Hanner gair o'i swynol enau  
 Dafodd oleu lawer gwaith,  
 Gwell na mil o esboniadau,  
 A chyfrolau meirwon maith :  
 Dyma elyn anghymodol  
 Pob rhyw gyfeiliornad cas,  
 Dyma angel gwarcheidwadol  
 Hen athrawiaeth Dwyfol ras.
- “ Chwi galonnau archolledig,  
 Sydd yn gruddfan am iachâd,  
 Dewch dan swyn ei ddawn nodedig  
 Chwi gewch yma esmwythad ;  
 Gwyr am holl glefydau'r galon,  
 A'r costrelau balm a gwin,—  
 Nid oes un o'r addewidion  
 Na fu ganwaith ar ei fin.
- “ Chwi amheuwyr, sy'n petruso  
 Ar hudolus enbyd dir,  
 Ofni credu—ofni peidio—  
 Ofni'r gau, ac ofni'r gwir ;  
 Deuwch dan ei weinidogaeth,  
 Dwyfol drydan drwyddi red,—  
 Gwywa rheswm ac anffyddiaeth  
 Pan esbonia seiliau'n cred.
- “ Doed y rhai sy'n min anobaith,  
 Dan euogrwydd trwm eu bai,  
 Mae cysuron ei athrawiaeth  
 Fel adfywiol gawod Mai ;

Deuwch chwithau blant afradlon,  
 Sydd a'ch cefn ar dŷ eich Tad,  
 Chwi gewch glywed addewidion  
 O faddeuol gariad rhad.

“ Nid oes tant o'r ddynol galon  
 Na fu'n ysgwyd dan ei law,  
 O uchelder profiad Cristion  
 Hyd ddyfnderoedd euog fraw :  
 Cyn ei symud ef i'r nefoedd  
 Coder ereill yn ei le,  
 Llanwed Duw ein hareithfaoedd  
 A gwir fawrion fel efe.

“ Morgan Howel, athraw tirion,  
 Mawl i Dduw am danat ti!  
 Cefais trwot ti fendithion,  
 A chysuron fwy na rhi' :  
 Os cawn gwrdd yng ngwlad y gwynfyd,  
 Hyfryd adrodd yno fydd  
 Am y tro y ces fy mywyd,  
 Am yr odfa gwnaed fi'n rhydd!”

Yng nghanol swyn y gân deimladol hon,  
 Pan dybiwyf weled Morgan ger fy mron,  
 Mae dirgel loes o dan fy mron yn fyw,  
 Nid all y gân byth dwyllo'r galon wyw!  
 O marw wnaeth! a dyma'r aeth a rydd  
 Y dirgel frath o dan fy mynwes brudd.  
 Ow marw wnaeth y gwir barchedig dad,  
 “Ow marw wnaeth,” yw'r adsain drwy y wlad!  
 Prin y disgwyliem am ei angau ef,  
 Gan gynefindra â'i wylofus lef;  
 Edrychem arno ganwaith megis gwyrth,  
 Fel un yn dod yn ol o'r marwol byrth.

Gorffwyso mae, ar ol llafurus ddydd,  
 Priddellau'r glyn yn felus iddo fydd;  
 Trwy daith y byd trallodion oedd ei ran,  
 Ei enaid blin yn byw mewn pabell wan.  
 Nid hyfryd yw adgofio pob rhyw donn  
 Fu'n llifo dros ei drallodedig fron;  
 Ond hyfryd iawn yw cofio'i ysbryd ef,  
 Yn plygu dan bob profedigaeth gref:  
 Mae rhai o'i eiriau mewn tymhestloedd maith,  
 Fel perlau disglair yn addurno'r iaith.  
 Heb rybudd daeth y cyfnewidiad hwn,  
 Gadawodd ninnau dan drallodus bwn.  
 Disgwyliem gystudd trwm, o faith barhad,  
 I'w gadw'n hir ar drothwy tŷ ei Dad;  
 Addawem gael o'i enau felus wledd,  
 O'i brofiad llawn wrth ddisgyn at y bedd,  
 Rhyw ryfedd air, i chwalu'n hofnau draw,  
 A'n gwneud yn hyf yn wyneb brenin braw.  
 Ond er mor ddirgel y daeth angau i'w nol,  
 Gadawodd dystiad eglur ar ei ol,  
 Fod pwys ei obaith ar yr unig fan  
 A drefnodd Duw i gynnal enaid gwan.  
 Disgynnodd ef yn esmwyth at y bedd,  
 Yn nod i angau a'i fuddugol gledd;  
 Bu farw'r athraw a'r duwinydd mawr,  
 A'i wedd yn dawel fel Mehefin wawr.  
 Ar ei grynedig wefus wan, yn wir,  
 Bu'r gair "Gogoniant" yn ymdroi yn hir;  
 Ac olaf eiriau ei ddaearol hynt,  
 Oedd olaf eiriau'r merthyr Stephan gynt:  
 Agorai'r nefoedd! daeth cerbydau Duw!  
 Ac ni adawyd ond tywarchen wyw!

Fe'i claddwyd ef fel gwr o uchel radd,  
 Cynhebrwng teilwng o dywysog gadd:  
 Er gwaeled oedd y corff fu'n cario cwyn,  
 Mae mynwent Cendl yn anwyl er ei fwyn.

## IV. D. RHYS STEPHEN.

Ni welir pan gollir planigyn o'r goedwig,  
 Neu un o'r mân flodau sy'n gwisgo y ddôl ;  
 Ond teimlir pan gollir brenhinbren llydanfrig,  
 Mae'n gadael y gwagle'n amddifad ar ol :  
 Ac felly pan gollir llenorion uchelddysg,  
 A'r prif arweinyddion mewn dawn ac athron-  
     ddysg,  
 Mae'n gosod cenedloedd mewn trallod a ther-  
     fysg ;  
 Galara y doeth, a rhyfedda y ffol.

Yr hynaws RHYS STEPHAN! Ychydig a dybiodd  
 Fod angau mor agos yn minio ei gledd ;  
 A llai a ddisgwyliodd yr awen a noddodd,  
 Y deuai mor fuan i wlychu ei fedd :  
 O blentyn athrylith, yn llawn cyfeillgarwch !  
 O Gymro diffuant, yn llawn o wladgarwch !  
 Cyfarfu delweddau pob math o hawddgarwch  
 Yn llewyrch ei lygaid, a harddwch ei wedd.

Ni fynnwn lychwino y fath ragoriaethau,  
 Drwy lunio'i alareb a'm teimlad yn llon ;  
 'Rwy'n diolch am gymorth ochenaid a dagrau,  
 I garo y baich sydd yn llethu fy mron :  
 Mae'm calon glwyfedig yn engraifft o filoedd  
 Sy heddyw'n cydwaedu ar hyd ein hardaloedd ;  
 Mae dagrau plant Gomer yn heilltion aberoedd,  
 Yn brawf o wir deimlad ein hanwyl wlad  
     hon.

O ddyfnder dinodedd, drwy bob anhawsderau,  
 Y codai Rhys Stephan i fawredd ei fri ;  
 Mae uchel athrylith yn herio pob rhwystrau,  
 A myn ei therfynau fel awyr a lli :



I deml gwybodaeth y mynnodd ymlwybro,  
 A hyn oedd ei eiriau ar drothwy'r deml honno,  
 "Aed golud y ddaear i'r sawl a'i chwenycho,  
 Ond rhodder agoriad gwybodaeth i mi."

Bu'n eistedd wrth draed y prif athraw yn Israel,  
 Sef Davies Tredegar, duwinydd di-ail;  
 Rhoes gysur ac ymfrost i'r hybarch Gamaliel,  
 Ac i'w fawr boblogrwydd gosododd y sail :  
 Y Duw a fu'n dangos ei llwybr i'r wawrddydd,  
 A ddirgel arweiniodd ei feddwl ysplenydd;  
 Gogwyddwyd ein cyfaill at rinwedd a chre-  
 fydd,

Mor esmwyth a'r rhosyn yn agor ei ddail.

Fe'i galwyd yn fore i gylchoedd cyhoeddus,  
 Cyfodai obeithion o fawredd i ddod,  
 A diball ymroddiad ei feddwl awyddus  
 Yn casglu defnyddiau disgleirdeb ei glod;  
 Hynododd ei hunan yng ngholeg y Fenni,  
 Ei gydysgoleigion a rwymwyd i'w hoffi,—  
 Ni threuliai ei amser ar lythau diogi,  
 Ond fel un mewn egni am gyrraedd y nod.

Dysgeidiaeth a natur sy'n rhannu'r anrhydedd,  
 Am godi'r fath wron nodedig o'n plith;  
 Athrylith a myfyr a'i hurddent â mawredd,  
 Cofleidiodd bob sylwedd—gochelodd bob  
 rhith :

Ymroddodd i chwilio elfennau gwirionedd,  
 Sychedai am ddeall pob achos a thuedd,  
 Fel blodau sychedig dan wres y cyhydedd  
 Yn agor eu genau i yfed y gwllith.

Cyn'lleidfa Bryn Hyfryd, yn nhref Abertawy,  
 Fu'n gwledda yn llawen ar flaenffrwyth ei  
 ddawn;


Tyrfaoedd awyddus Casnewydd, ym Mynwy  
 Fu'n profi grawnsypiau yn addfed a llawn :  
 Ffarweliodd â Chymru, hen gartre'i hapus-  
 rwydd ;  
 Ac aeth i Fanceinion, dan ddeddf angenrheid-  
 rwydd ;  
 Dychwelodd yn ol i hen wlad ei boblogrwydd,  
 Lle treuliodd gymylog anesmwyth brydnawn.

Llewyrchodd fel seren ym mysg y Bedyddwyr,  
 Addurnai'r Mai wyliau ar loriau Caerludd ;  
 Bu'n angau i ragfarn chwyddedig ymhonwyr,  
 Na welant mewn Cymro ond gwagnod difudd :  
 Sefydlodd ei hunan mewn myrdd o galonau,  
 Enillodd serchawgrwydd at feibion ein bryn-  
 iau,—  
 A'r newydd galarus fu'n rhwygo'n teimladau,  
 A wnaeth lawer estron dyngarol yn brudd.

Yn nydd ei ogoniant pwy gyfuwch a'n gwron?  
 Y doniol Rhys Stephan ystyriwn fel tad ;  
 Ei enw a welid yn britho'r misolion,  
 A thaenai pob awel ei glodydd drwy'n  
 gwlad :  
 Bu'n casglu gwobrwyon ar faesydd llenydd-  
 iaeth,  
 Bu'n eistedd mewn urddas ar feinciau beirn-  
 iadaeth,  
 Bu'n llenwi gobeithion prif ddyinion ein tal-  
 aeth,  
 Wrth weld ei fedrusrwydd yn arwain y gâd.

Er bwrw ei goelbren yng nghylchoedd estron-  
 iaid,  
 Ni chollodd ei hoffder at heniath ei wlad ;





BEDD EMRYS, YM MYNWENT CAPEL HELYG.

"Disgynnaf ffunau yn fy nhro  
Dan Ienni'r bythol fyd."

Nid ydoedd un galon ym mysg y Gomeriaid  
 Weddiai'n fwy rhwydd am ei llwydd a'i  
 pharhad:  
 Gwladgarwyr yn wir oedd ei unig gyfeillion,  
 Ei fynwes agorai i'w derbyn yn union;  
 Gomeres ddiffuant a swynodd ei galon,  
 Cadd wyrion ein Gomer i'w alw yn dad.

Carnhuanawc a Stephan, y ddau frawd uchel-  
 fri,  
 I gadw'n defodau gydweithient mewn hedd;  
 Dwy seren ddisgleiriaf Eisteddfod y Fenni,  
 Ddiffoddwyd, ddiffoddwyd yn nh'w'llwch y  
 bedd!  
 Llithrigrwydd ymadrodd, a chraffder beirn-  
 iadaeth,  
 Meddyliau newyddion yn llawn o drydaniaeth,  
 Ac ysbryd llafurus tuhwnt i ddirnadaeth,  
 Roes iddynt ddylanwad ar ysbryd y wledd.

Hyawdledd y Cymry a hoffai yn ddirfawr,  
 Gwresogrwydd y dull, a phereidd-der y llais;  
 Rhoes engraifft o hono ar lawer esgynlawr,  
 Wrth fesur cadwynau gorthrymder a thrais;  
 Eisteddai sirioldeb ar bob cynulleidfa,  
 Pan welid e'n esgyn hyd risiau'r areithfa.  
 Lle bwriai ei lawryf wrth groes y Messia,  
 Yn ysbryd y Cymro a choethder y Sais.

Yr oedd yn dduwinydd galluog a golau,  
 Ni fynnai ymwystlo i Rabbi na Thad;  
 O'i ffrwythlawn ysgrifell caem werthfawr  
 draethodau,  
 Bu'n profi pob ysbryd a hudai y wlad:

Ei farn anibynnol oedd lawn o wreiddioldeb,  
 Ni fynnai un safon ond safon Dwyfoldeb,  
 Ni fynnai ei rwymo wrth bynciau ystrydeb,—  
 Mewn pob rhyw newydd-deb ni theimlai  
 foddhad.

Ei feddwl cyfoethog oedd fel amgueddfa,  
 A phob rhyw wybodaeth yn barod ger bron,  
 Troelliadau'r ffurfafen—symudiad y ddaear—  
 Dylanwad y lleuad ar derfyn y donn;  
 Os ceisiem oleuni ar gelloedd hynafiaeth,  
 Ar droellau rhesymeg, a rheol beirniadaeth,  
 Ar ddeddfau daeareg, a cheinion barddoniaeth,  
 Ein holl ymofynion ddiwallai yn llon.

Rhy uniawn oedd Stephan i drafod gelynyon,  
 Agorai i estron ei galon i gyd;  
 Hyderai'n blentynaidd fod pawb yn gyfeillion,  
 Nes teimlo fod dynion yn fradwyr o fryd:  
 Nid hynod yw canfod y fath ddiniweidrwydd;  
 Yn llewyrchu dan gysgod y fath fawreddog-  
 rwydd;  
 Ni ddisgyn y doethawr o binacl enwogrwydd,  
 I ddarllen cyfrwysdra cyffredin y byd.

'Roedd ganddo alluoedd i'n gwneuthur yn  
 llawen,  
 A moroedd o chwedlau, heb waelod na thrai;  
 Ei dymer ddigriflon fu'n nod i genfigen,  
 A rhai o'i fân frychau'n fynyddoedd a wnai:  
 Os bwriwyd ef weithiau i derfyn cellweiriaeth,  
 Gan berffaith gasineb at bob Phariseaeth,  
 Bu'n curo'n grynedig wrth borth Iechydwr-  
 iaeth,  
 Bu'n moli'r drugaredd faddeuodd y bai.

Ni fynnai ymwerthu i fydol gyfrwysdra,  
 A lledu ei babell dan gysgod yr yw;  
 Ni fynnai ymgladdu mewn bydol orffwysdra,  
 Drwy symud i frasach corllannau i fyw;  
 Ni fynnai aberthu ei gred na'i wladgarwch,  
 Na heddwch cydwybod, i fydol lonyddwch;  
 Dewisai ymdagu â phob annedwyddwch,  
 Yn hytrach na digio'i gydwybod a'i Dduw.

Bu'n araf ddihoeni yng ngolwg marwolaeth,  
 A chymysg deimladau yn llenwi ei wedd;  
 Bu dwylaw caredig cyfeillion llenoriaeth  
 Yn ceisio esmwytho'i ddisgyniad i'r bedd:  
 Ond cennad marwolaeth ni fynnai ei siomi,  
 Ymdduriodd fel llofrudd yn erbyn tosturi,  
 Gan chwerthin ar ddagrau a gwawdio trueni,  
 Y cadarn a fynnai yn ymborth i'w gledd.

Tra bu yn dihoeni mewn angen a gwaeledd,  
 Cadd weled amrywiaeth cyfeillion y byd;  
 Y dynion a noddodd yn nydd ei ogonedd,  
 I'w ddagrau a'i ochain yn ddall ac yn fud!  
 Aeth "Offeiriad a Lefiad" y tu arall heibio,  
 Ond Duw a ddarparodd Samariad i'w wyllo:  
 O rith gyfeillgarwch! Os na fedri wrido,  
 Dod mantell cywilydd am danat, mae'n  
 bryd!

Pwy ddichon ddarlunio teimladau fy mynwes,  
 Pan gwrddo fy llygaid wylofus â'i lun  
 Y llygaid chwareuol, y dullwedd dirodres,  
 A'r gwallt anghudynog fel anhrefn y beddrod,  
 A chofio'i fod heddyw yn nyfnder y beddrod,  
 Na feiddiaf obeithio cael eto'i gyfarfod,  
 Pa ryfedd os gwibia'm dychymyg mewn trallod,  
 I dywallt fy nagrau ar fedd y fath un?

Mae pwyntel y cof yn darlunio ei wyneb,  
 A'r hen olygfeydd yr aem drwyddynt ynghyd,  
 A'i ddiball arabedd yn taenu sirioldeb  
 Ar holl amgylchiadau helbulus y byd :  
 Mae llu o'i gyfeillion yn dilyn eu gilydd,  
 I weld ei orweddfa ym mynwent Casnewydd,  
 Eu dagrau sy'n disgyn ar faen y bedd llonydd,  
 A dyma iaith gymysg y dagrau i gyd ;—

“ Gorffwysa, bererin lluddedig,  
 Aeth heibio ystormydd y daith ;  
 Boed heddwch i'th lwch cysegredig,  
 Dibenwyd dy boenau a'th waith :  
 Dy frodyr galarus sy'n nesu,  
 Gan rodio yn ysgafn eu cam,  
 I weled y man y gorffwysi,  
 Yn dawel ym mynwes dy fam.

“ Gadewaist dy dylwyth amddifaid,—  
 Yr Arglwydd a'u ceidw yn fyw ;  
 Dy weddw sy'n bwrw'i hochenaidd  
 I sylw trugarog ei Duw :  
 Mae rhinwedd a rhyddid yn ffynnu,  
 Mae baner cyfiawnder ar daen ;  
 Mae arfau y nef yn gorchfygu,  
 A'r gwersyll yn symud ymlaen !

“ Mae meddwl am orfod troi ymaith,  
 A'th adael yn llaith wely'r bedd.  
 Yn agor ffynhonnau o hiraeth,  
 Yn gwanu y galon fel cledd !  
 Ffarweliem yn fynych cyn yma,  
 Mewn gobaith cyfarfod yn llon ;  
 Ond dyma y ffarwel ddiweddaf  
 Y ffarwel sy'n rhwygo y fron !



- “ Mae llu o’th gyfeillion yn barod  
 I blannu yr helyg a’r yw,  
 I dyfu ar ymyl dy feddrod  
 Hyd foreu d’ adferiad i fyw;  
 Tra fyddo yr helyg yn wylo,  
 A’r ywen yn setyll yn wyrdd,  
 Tra pery yr awel i suo,  
 Dy enw fo’n anwyl gan fyrdd.
- “ Y Duw a fu’n codi Eleasar  
 I weini’n lle Aaron ei dad,  
 A godo dy feibion gorhawddgar  
 Yn addurn i’w crefydd a’u gwlad;  
 Tra byddo olwynion llyfn amser  
 Heb redeg eu gyrfa i ben,  
 Y byddo hil Stephan a Gomer  
 Yn ffrwytho dan fendith y nen!”

## V IOAN TEGID.

PWY yw hwn sydd eto’n dyfod,  
 Yn cyfeirio at y beddrod?  
 IOAN TEGID galon dyner,  
 Eneiniedig fardd Nanhyfer!

Awdwr “ Gwlad fy Ngenedigaeth,”  
 Roed dan lenni oer marwolaeth;  
 Collwyd heddyw o’r ffurfafen  
 Oleu siriol disglair seren.

Athen Cymru ydyw’r Bala,  
 Magodd rai o’i phlant enwoca’;  
 Cafwyd ynddi ambell d’wysog,  
 Wnaeth y Bala byth yn enwog.

Un o'i phlant oedd Ioan Tegid,  
 Bachgen llawn o ddawn cynhennid;  
 Balch yw'r Bala o'r enwogrwydd  
 Fu'n ei ddilyn dros ddeugeinmlwydd.

Ymddiddenir am ei ddoniau  
 Hyd y llennyrch lle bu'n chwaraeu;  
 Cof am dano yno bery  
 Tra bo'r Llyn o fewn ei wely.

Pan oedd Charles yn ei ogoniant,  
 Yn mwynhau awelon llwyddiant,  
 Wrth ei draed eisteddai'n gwron,  
 I gael addysg a'i gynghorion.

Bu dysgeidiaeth ei rieni  
 Yn ei arwain a'i hyfforddi;  
 Rhoent ei draed ar lwybrau rhinwedd,  
 Sy'n diweddu mewn gogonedd.

Syched didor am ddysgeidiaeth,  
 Awydd gweini ei genedlaeth,  
 A dueddai'r bachgen cywrain  
 I gyfeirio at Rydychain.

Nid oedd un o fechgyn meirion  
 Yn ei charu'n fwy na'n gwron;  
 Nid oedd un o'i phlant lliosog  
 Gerid ganddi yn fwy serchog.

Bydd ei enw gan y Cymry  
 Fel traddodiad ym mhob teulu;  
 Bydd y rhai na anwyd eto  
 Am ein Tegid yn breuddwydio!

Tri ugeinmlwydd y bu Tegid  
 Yn anadlu'n myd v gofid;  
 Syrthio wnaeth i ddwylaw angau  
 Cyn i henaint rychu'i ruddiau.

Yn ei wedd yr oedd boddlonrwydd  
 A dymunol ddiffuantrwydd;  
 Ni chai unrhyw athrod afiach  
 Fyw yn awyr ei gyfeillach.

Un o hoffaf blant yr awen  
 Ydoedd Tegid galon lawen;  
 Bu ei thlysau a'i gwobrwyon  
 Yn disgleirio ar ei ddwyfron.

Er myfyrio amryw ieithoedd,  
 Nes eu deall i'w dyfnderoedd;  
 Iaith ei fam, a'i seiniau tlysiion,  
 Oedd y nesaf at ei galon.

Bu yr India a'i hangenion  
 Bron a'i hudo dros y wendon;  
 Serch at wlad ei enedigaeth  
 A orchfygodd bob hudoliaeth.

O Tegid fawledig! Goddefer i fardd  
 Brudd ddatgan ei fawr ragoroldeb;  
 Fy nghalon sy'n twymno, pwy feiddiai'i gwa-  
 hardd?

Wrth geisio cynllunio'i alareb.

Agorodd fwngloddiau cuddiedig ein hiaith,  
 Dilynodd ei llawnion wythieni;  
 Bydd oesau yn medi o gynnyrch ei waith  
 Yn dwyn y Gymraeg i oleuni.

Cynhyrchion ei awen a gedwir ynghyd,  
 Fel gemau o werth a thlysineb;  
 Gafaelant yn nheimlad y genedl i gyd,  
 A threiglant fel oesol ddihareb.

Nid nerthoedd Goronwy oedd nerthoedd ei  
 ddawn,  
 Yn taro fel ergyd daeargryn;  
 Ond hyfryd arabedd, o addysg yn llawn,  
 Yn llonni henafgwr a phlentyn.

Bu'n olrhain dyfnderau'r oludog Hebraeg,  
 Dug allan drysorau ei hawdwyr;  
 Rhoes feddwl Eſaiah mewn gwisg o Gymraeg,  
 Er addysg i'r uniaith Omerwyr.

Fe welwyd disgyblion o fonedd a chwaeth,  
 Yn dilyn y Cymrawd parchedig;  
 A'i uchel ddysgeidiaeth yn godiad a ddaeth  
 I enw ei famwlad fynyddig.

O gadair Rhydychain, ym mlodau ei lwydd,  
 Neillduodd i ardal Nanhyfer;  
 Ac yno ymroddodd i weini ei swydd,  
 Er addysg a chysur i lawer.

Ni feddai hyawdledd y seraff a fu  
 Yn tanio yr ardal freintiedig;  
 Ond meddai ryw deithi a'i gwnaethont yn gu,  
 A'i enw barha'n anwyledig.

Y gwersi a ddysgodd ar aelwyd ei fam  
 Oedd sylwedd ei holl weinidogaeth;  
 Er maint ei ddysgeidiaeth ni wyrai un cam  
 O slymledd yr hybarch athrawiaeth.

I borthi'r newynog, a gwisgo y noeth,  
 Agorai ei ddwyllaw haelionus;  
 A thrwy ei gynghorion amserol a doeth,  
 Tawelai galonnau cythryblus.

Cyn gweled ei wyneb caredig erioed,  
 Fy nghalon a ddysgwyd i'w hoffi;  
 Trwy gyfnewidiadau holl gylchoedd fy oed.  
 Ni chefais yn Tegid fy siomi.

Nis gallaf anghofio sirioldeb ei wedd,  
 Wrth ledu ei fyrddau croesawus;  
 A gweled arwyddion trefnusrwydd a hedd  
 Yn llenwi ei annedd gysurus.

Ceid yno gyfeillach heb ofni un brâd,  
 A gwledd o arabedd yn wastad;  
 Yr ieuanc efrydydd dderbyniai fel tad,  
 Nes ennill ei hyder a'i gariad.

Ni roddwyd teimladau mewn mynwes erioed  
 Yn llawnach o bur gyfeillgarwch;  
 Yng nghalon y Cymro gwrolaf ni roed  
 Elfennau o burach gwladgarwch.

Eisteddfod y Fenni fydd bellach heb wawr,  
 Heb Tegid a Stephan odidawg,  
 I'r rhai y trosglwyddwyd ymddiried mor fawr  
 A mantell yr hen Garnhuanawg.

Pa le mae iaith? Pa le  
 Y mae dychymyg chwim?  
 Ai nid oes gair o dan y ne  
 A rydd ollyngdod im?

Och'neidia'm mynwes lawn,  
 Gan geisio esmwythad;  
 Rhy wan yn wir yw pob rhyw ddawn  
 I roi i mi ryddhad.

Gofynnir i mi'n syn,  
 Paham yr wyf yn brudd;  
 Ail agor clwyfau ydyw hyn,  
 A deffro'r gofid cudd:  
 Nid oes ond profiad prudd  
 A edwyn glwyfau'r fron;  
 A Duw ei hun yn unig rydd  
 Y balm i wella hon.

Marwolaeth Tegid wnaeth  
 Im ddeall hiraeth byw;  
 Y newydd trwm roes imi saeth  
 A waedai'm calon wyw:  
 Derbyniaf rybudd dwys  
 O fedd yr anwyl un;  
 A mynnaf deimlo fod fy mhwys  
 Ar rywbeth gwell na dyn.

Daw Tegid ger fy mron,  
 Ym mysg breuddwydion nos,—  
 Ei wenau mwyn, ei lygaid llon,  
 A'i ruddiau fel y rhos;  
 Ond erbyn im ddeffroi,  
 A gweld mai breuddwyd yw,  
 Mae'r galon drist yn ail gyffroi—  
 Mae trallod eto'n fyw.

Os dwed rhesymeg sych  
 Mai ysgafn yw fy mhwn—  
 Y cyfyd Duw ryw lenor gwych  
 I lenwi'r gwagle hwn;

Nid oes ond hyn i'w ddweyd,  
 Pe codid myrdd a mwy,  
 Nis gall eu mawredd byth ddadwneud  
 Yr hyn a wnaeth fy nghlwy.

Mor wag yw'r byd yn awr  
 O'm hen gyfoedion llon!  
 Y mae rhyw amddifadrwydd mawr  
 Yn wastad ger fy mron:  
 Fel hyn, o do i do,  
 Yr awn i'r bedd i gyd;  
 Disgynnaf finnau yn fy nhro  
 Dan lenni'r bythol fyd.

'Rwy'n darfod mwy â'r byd,—  
 Siomedig yw ei wedd;  
 Mae'm hen gyfeillion bron i gyd,  
 Ar fin, neu yn y bedd:  
 Gwrthddrychau'm serch y sydd,  
 O un i un yn mynd;  
 A gorfod gweld yr wyf bob dydd,  
 Y lle bu ambell ffrynd!

Dymunwn weld y man  
 Lle'r huna'r enwog fardd,  
 Yn swm y donn sy'n golchi'r lan,  
 Ar derfyn Penfro hardd:  
 Yn wylaidd y nesawn,  
 A safwn yno'n syn;  
 Ac ar y beddfaen wylo wnawn,  
 A cherfio'r geiriau hyn;—

“Yr Ieithydd dyfnddysg huno wnaeth  
 Mae'n Bardd yn gaeth gan angau;  
 Daeth un o bleidwyr penna'n hiaith,  
 I ben ei daith a'i boenau;

Ni chauodd wyneb tir na dwr  
 Ar wyneb gwr hawddgarach;  
 Ei dymer lon, a'i siriol bryd  
 Oedd bywyd pob cyfeillach.

“Daw gwanwyn gwych dros fryn a dôl,  
 I siriol wisgo'r ddaear;  
 Ond ofer disgwyl mewn un man  
 Am Ioan Tegid hawddgar;  
 Fe glywir sain y delyn fwyn,  
 A theimlir swyn ei thannau;  
 Ond p'le mae'r un fu'n cael boddhad  
 I'w deimlad dan ei thonau?

“Mae'r awen hoff yn wlyb ei grudd,  
 A'n beirdd mewn prudd deimladau,  
 Am golli Tegid, enwog un;  
 Fu'n harddu'n Heisteddfodau;  
 Fe deimlir gwagle hir ar ol  
 Y gwrol feirniad golau,  
 A theimlir chwithdod maith ym mysg  
 Ein gwyr o ddysg a doniau.

“Mor dywyll yw bwriadau Duw,  
 Mor anhawdd yw eu canfod!  
 Pa lygad meidrol byth a wel  
 Holl ddirgel ffyrdd y Duwdod?  
 Wrth dorri i lawr y gwinwydd ir,  
 Arbedir prennau crinion;  
 A phan y collir y rhai doeth,  
 Gadewir annoeth ddyinion.

“Cwsg Tegid, cwsg, nes delo'r awr  
 I'r udgorn mawr dy ddeffro,  
 A boed dy gysegredig lwch  
 Mewn heddwach yn gorffwyso:



Ffarwel, ffarwel, y cyfaill pur—  
 Ffarwel, y gwir wladgarwr!  
 I ben dy daith cyrhaeddaist ti,  
 Gadewaist fi'n Alarwr."

## VI.

O fedd digyfeillach! mae'r teimlad drylliedig  
 Am dywallt ei lid ar dy garchar llygredig;  
 Hyawdledd naturiol y galon sy'n twymno,  
 I erlid y beddrod sydd yn ein hysbeilio;  
 Pob iaith a yspeilir o'i geiriau caledion,  
 I fwrw pob dirmyg ar lety'r marwolion.

Yn araf, deimladau! Mae'n dda i'r gwael  
 briddyn  
 Gael cartref, pan gauo pob drws yn ei erbyn;  
 Fel plentyn afradlon a phawb yn ei wrthod,  
 Nid oes ond ei fam i'w groesawu yn barod.  
 Mae'r dydd difrifolaf bron, bron a'n cyfarfod,  
 Pan fo ein cyfeillion a phawb yn ein gwrthod;  
 Ein mam, yr hen ddaear, a egyr ei mynwes,  
 Dychwelwn i'r fynwent am gysgod a lloches.

O fedd cymwynasgar! Trosglwyddwn i'th  
 ofal  
 Weddillion parchedig y cedyrn anhafal;  
 Dod le iddynt lechu dan lenni distawrwydd,  
 A chadw eu llwch hyd ddyfodiad yr Arglwydd.  
 Diolchwn i'r nefoedd am lusern Crist'nogaeth,  
 I dywallt goleuni ar gelloedd marwolaeth;  
 Mae lampau athronddyse oll, oll yn diffoddi,  
 Ar lan v bedd tywyll y palla'u goleuni.  
 O ddynol ddoethineb! A godir y meirwon,  
 A dreiddia bywhad i'r llygredig waelodion?

Yngladda athroniaeth mewn bythol fudandod,  
 Ffarwelïa â'r meirw yn nh'w'llwch y beddrod :  
 Yng ngoleu'r efengyl mae anllygredigaeth  
 Yn taenu sirioldeb ar deyrnas marwolaeth ;  
 Yr udgorn a seinia ! y meirw gyfodant !  
 A llyncir marwoldeb mewn bythol ogoniant !  
 Gruddfanna y ddaear mewn loes esgoreddfa,  
 Yn adenedigaeth aneirif blant Adda !

Os dodwyd gweddillion ein brodyr a'n tadau  
 Yn nhŷ eu hir gartref i aros dros oesau,  
 Goddefer i'r awen ail ddweyd y gwirionedd,  
 Fod eu santiaidd eneidiau mewn bythol dang-  
 nefedd.

Ust! ust! mae dychymyg yn gwrando yn  
 llawen,

Ar sain eu canïadau tu draw i'r wahanlen ;  
 Gwrandawed y ddaear ar adsain yr anthem,  
 A glywir o'u genau yn llysoedd Caersalem ;—

“ Yn iach i ofidiau y ddaear,  
 Yn iach i drallodau y llawr,  
 Gogoniant ein Iesu gorhawddgar  
 Yw sylwedd ein nefoedd yn awr ;  
 Er cystal yr hanes am dano  
 Wrth deithio anialwch y byd,  
 Mae un o'r golygon geir arno  
 Tu hwnt i bob hanes ynghyd.

“ O na chai'n cyfeillion wylofus  
 Un olwg ar harddwch y nef ;  
 Fe sychid eu dagrau galarus,  
 Distawai holl dristwch eu llef :  
 Un olwg ar wlad y gogoniant  
 Ddiwallodd ein gobaiith i gyd,  
 A llynca mewn bythol anghofiant  
 Holl dybiau a barnau y byd.

"Cawn weled y rhyfedd ddirgelion  
 A roed yn ffugyrau y gair,  
 Y delyn, y palmwydd, a'r goron,  
 A'r disglair heolydd o aur;  
 Nid ydoedd yr holl ddychymygion  
 A gasglodd y ddaear ynghyd,  
 Ond megis mabanaidd freuddwydion  
 O wychder ysblenydd ein byd.

"Cyfrifid ni'n fawrion y ddaear,  
 Ond plant ydym yma mewn maint,  
 Yn gwrando angylion cyfeillgar  
 Yn canu nes synnu y saint;  
 A'r saint perffeithiedig yn adrodd  
 Hen brofiad maddeuant a hedd,  
 Nes synnu'r angylion a'u gwylodd  
 Drwy gylchoedd eu bywyd i'r bedd.

"Mor hyfryd yw gwlad anfarwoldeb  
 A phopeth yn burdeb heb wall!  
 Mor hyfryd yw'r nefol gymundeb,  
 Heb unrhyw ddiffygion na phall!  
 Pob gradd o angylion sy'n brysur  
 O amgylch gorseddfainc yr Ion,—  
 Ond trefn Iechydwrriaeth pechadur  
 Yw testyn melusaf pob tön.

"O nefol hyfrydaf breswylfod,  
 Nis gallwn amgyffred ei maint;  
 Nid ydym ond dechreu adnabod  
 Wynebau ac enwau y saint:  
 Mae yma'r fath ddirfawr bellafoedd,  
 A llwybrau o wynfyd mor faith;  
 Nid ydyw hen saint y cynoesoedd  
 Ond megis yn dechreu y daith."

Cymer d'anadl bellach, f'awen,  
 Teithiaist lwybrau blinion iawn,  
 A1 hyd lannau yr Iorddonen,  
 Lle mae loesau'n herio dawn;  
 Cwyd dy olwg o'r dyfnderau,  
 Dros ryferthwy'r afon ddofn,  
 Lle mae'r Cedyrn uwchlaw angau,  
 Wedi claddu pob rhyw ofn.

Sych dy ddagrau, Gymru, bellach,  
 Diosg dy alarwisg lom;  
 Gwel dy feibion heddyw'n holliach,  
 Heb ol tristwch calon drom;  
 Elw iddynt, medd ein hyder,  
 Oedd ein dirfawr golled ni;  
 Claddwn bellach bob rhyw drymder,  
 Dan gysgodau'r nefol fri.

Llaw doethineb anffaeledig  
 Sy'n rheoli'r peiriant mawr;  
 Gorchwyl ysbryd gostyngedig  
 Yw cydnabod hyn yn awr;  
 Fe geir golwg ar ddirgelion  
 Hen fwriadau'r Dwyfol Fod;  
 Bydd yr arfaeth a'i dibenion  
 Yn disgleirio er ei glod.

Wrth im' droi'r ysgrifell heibio,  
 Wrth derfynu'r ganiad hon,  
 Teimlo 'rwyf fod angau'n gwylio,  
 Ac yn gweithio dan fy mron:  
 Pan ddaw'r awr im' gau fy llygaid  
 Ar anialwch gwag y byd,  
 Boed addfedrwydd yn fy enaid  
 I fwynhau y Ganan glyd!

# CYFRES Y FIL.

Y mae y cyfrolau canlynol wedi eu cyhoeddi :

*Cyfrol 1901.*

DAFYDD AP GWILYM  
(pob cyfrol wedi mynd).

*Cyfrolau 1902.*

\*GORONWY OWEN. Cyf. I.  
\*GORONWY OWEN. Cyf. II.  
†CEIRIOG.  
\*HUW MORUS.

*Cyfrolau 1903.*

\*BEIRDD Y BERWYN.  
\*AP FYCHAN.  
\*ISLWYN.

*Cyfrolau 1904.*

\*OWEN GRUFFYDD.  
\*ROBERT OWEN.  
\*EDWARD MORUS.

*Cyfrolau 1905.*

\*JOHN THOMAS.  
\*GLAN Y GORS.  
\*GWILYM MARLES.  
\*ANN GRIFFITHS.

*Cyfrolau 1906.*

\*EBEN FARD. D.  
\*SAMUEL ROBERTS (S.R.).  
\*DEWI WYN.

*Cyfrol 1907.*

\*JOSHUA THOMAS.

*Yn unfurf.*

\*GEIRIADUR CYMRAEG.

Pris 1/6 yr un; 1/1½ i danysgrifwyr.

\*I'w cael oddiwrth R. E. Jones a'i Frodyr, Conwy. †Oddiwrth Mri. Hughes & Son, Wrexham. †O Swyddfa Cymru, Caernarfon. Anfoner enwau tanysgrifwyr i O. M. Edwards, Llanuwchllyn. Gellir cael yr olgyfrolau, neu ddechreu gyda'r gyfrol hon.

*Cyfrolau 1908.*

\*IEUAN GLAN GEIRIONYDD.  
\*FICER PRICHARD.

*Cyfrolau 1909.*

\*ALUN.  
\*TWM O'R NANT. Cyf. I.

*Cyfrolau 1910.*

\*TWM O'R NANT. Cyf. II.  
\*YR HWIAN GERDDI.

*Cyfrolau 1911.*

\*GWILYM HIRAETHOG.  
\*BEIRDD Y BALA.

*Cyfrolau 1912.*

\*Y DIARHEBION. Cyf. I.  
\*EDWARD RICHARD A  
IEUAN BRYDYDD HIR.

*Cyfrolau 1913.*

\*CALEDFRYN.  
\*IOLO MORGANWG.

*Cyfrolau 1914.*

†MYNYDDOG. Cyf. I.  
†SION CENT.

*Cyfrolau 1915.*

†IOLO GOCH.  
†MYNYDDOG. Cyf. II.

*Cyfrolau 1916.*

†EMRYS.  
(Ereill i ddilyn).

# Llyfrau ab Owen.

*Cyhoeddiedig yn Swyddfa "Cymru," Caernarfon.*

---

---

Nid yw y llyfrau hyn yn gyfres, er eu bod ol o'r  
un plyg a maint.

**PRIS, SWLLT YR UN.**

---

CLYCH ADGOF.

Penodau yn hanes fy addysg.

GAN OWEN EDWARDS.

Ysgol y Llan. Hen Fethodist. Llyfr y Seiat. Fy  
Nhad. Y Bala. Aberystwyth. Rhydychen. Dyrnoid o  
Beiswyn.

GWREICHION Y DIWYGIADAU.

WEDI EU CASGLU GAN GARNEDDOG.

Penhillion y Diwygiadau, tân oddiar yr allor,  
yn llawn ysbryd ac athrylith.

TRO TRWY'R WIG.

GAN RICHARD MORGAN.

*Y Gyfrol Gyntaf.*

Coch y Berllan. Priodas y Blodau. Nyth Aderyn  
Du. Bore Teg. Carwriaeth y Coed. Crafanc yr Arth.  
Telor yr Helyg.

## CAPELULO.

### GAN ELFYN.

Bore Oes; Crwydro'r Byd; Troi Adre; Troi Dalen; Sêl Tomos; Dysgu Darllen; "Dydd Iau"; Balchder a phwddin; Gwerthu Almanaciau a Cherddi; Traethu ar Briodas; Anerchiadau a Chynghorion; Araeth Danllyd; Pregeth i Berson; Cwestiynau'r Cyfrwys; Dafydd Evans y Pandy; Cyfarfod Gwytherin; Yn y Cyfarfod Gweddi; Tagu Prydydd; Dywediadau ac Ymgomiau; Tomos ac I. D. Ffraid; y Gweinidog o'r De; O Flaen yr "Ustus"; Rhyfel a Satan; Yn y Seiat; Galwad Adref.

## TRO TRWY'R GOGLEDD.

### GAN OWEN EDWARDS.

Blaenau Ffestiniog. Y Perthi Llwydion. O gylch Carn Fadryn. Harlech. Ty'n y Groes. Llan ym Mawddwy. Pen y Bryn. Y Bryn Melvn.

## ROBERT OWEN, APOSTOL LLAFUR.

### GAN Y PARCH, RICHARD ROBERTS, B.A.

#### *Cyfrol I.*

Y cartref yn y Drefnewydd. Y Siop yn Llundain. Manceinion. Lanark Newydd. Amseroedd Rhyfedd. Trueni'r gweithiwr. Adam Smith a Malthus. Ym Mharis a'r Ynys Werdd. Ymroddi i wella cymdeithas. Ei syniadau.

#### *Cyfrol II.*

Harmony Newydd. Lanark Newydd. Mexico a'r Unol Dalaethau. Y Symudiad Cydweithredol. Y Gyfnewidfa Llafur. Yr Undebau Llafur. Y dyn. Ei neges. Ei le. Ei gymunrodd.

## DAFYDD JONES O DREFRIW.

### GAN Y PARCH. O. GAIIANYDD WILLIAMS.

Y Llenor a'i oes. Amcan a lle Dafydd Jones. Pwy ydoedd. Bywyd y Buchedd. Ei Farddoniaeth. Ei Grefydd. Ei Lyfrau. Bwriadau Llenyddol. Fel casglwr hen ysgriflyfrau.

## TRO I'R DE.

### GAN OWEN EDWARDS.

Caer Leon Fawr. Llanidloes. Llanfair Muallt Abertawe. Yr Hen Dy Gwyn. Llangeitho.

GWAITH HUGH JONES, MAESGLASAU.  
DAU O'I LYFRAU,—SY'N BRINION IAWN ERBYN HYN.

I.—"Cydymaith i'r Hwsmon." 1774.

II.—"Hymnau Newyddion." 1797.

TRWY INDIA'R GORLLEWIN.

GAN Y PARCH. D. CUNLLO DAVIES.

Nodiadau o hanes taith trwy yr ynysoedd yng ngauaf  
1903-04.

CERIS Y PWLL.

GAN O. WILLIAMSON.

Rhamant hanesyddol yn egluro cyfnod yr ymdrech  
rhwng Goidel a Brython a ffurfiad y genedl Gymreig.

CANIADAU BUDDUG.

Ceir yma mewn cyfrol dlos ganeuon llednais, tawel,  
hyfryd y cartref dedwydd, a'r bywyd dwys.

BRUT Y TYWYSOGION.

PRIF GRONICL CENEDL Y CYMRU.

Rhodri Mawr—Hywel Dda—Llywelyn ab Seisyll—  
Gruffydd ab Llywelyn—Bleddyn ab Cynfyn—Rhys ab  
Tewdwr—Gruffydd ab Cynan—Gruffydd ab Rhys—Owen  
Gwynedd—Owen Cyfeiliog—vr Arglwydd Rhys.

CYFRINACH Y DWYRAIN.

Ciprem ar hanes y darganfyddiadau pwysical  
yng ngwledydd y Beibl.

GAN Y PARCH. D. CUNLLO DAVIES.

DR. W. OWEN PUGHE.

Ei hanes—ei waith—ei athrylith—ei feirniaid.

GAN Y PARCH. T. MORDAF PIERCE.



